

# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 273 - 50c  
Mai 2009

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

## Cyhoeddi Eisteddfod 2010



Tudalen 21

## Cadwyn arall o gyfrinachau



Tudalen 16

## Eisteddfod Capel y Groes



Tudalen 23

## *Bant â ni i Gaerdydd...*



*Tîm Rygbi Llanbedr ar eu ffordd i Rownd Derfynol Cystadleuaeth Bowlen SWALEC yn Stadiwm y Mileniwm a Chôr Ysgol Gyfun Llanbedr a Pharti Dawnsio Gwerin Ysgol y Dderi ar eu ffordd i Eisteddfod yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm.*







Ensemble Lleisiol Ysgol Gyfun Llambled Aled Wyn, Elliw Mair, Philip Chrich a Hedydd Davies - cyntaf.



Dau frawd - Llion Thomas ail ar Unawd Llinynnol a Meirion cyntaf ar yr Unawd.



Tair o ferched Aelwyd Llambled Elliw Mair, Lowri Elen a Hedydd Davies wedi ennill sawl gwobr gyntaf.



Dawns Cyfrwng Cymysg Ysgol Ffynnonbedr - Ail.



Charlotte Saunders ail ar Unawd Blwyddyn 3-4.



Aron Dafydd Unawd Bl 7-9 - Ail.



Dawns Disgo Ysgol Ffynnonbedr - Ail.



Aelwyd Llambled cyntaf yn y Parti Deusain a chyntaf yn y Grŵp Llefaru.



Parti Unsain Adran Llambled – trydydd.



Parti Bechgyn Ysgol Gyfun Llambled - cyntaf.



Grŵp Llefaru dan 12 Adran Llambled - cyntaf.



Ymgom a Pharti Unsain Ysgol Cwrtnewydd - dwy wobwr gyntaf.



Côr Ysgol Ffynnonbedr - trydydd.



# Pwy yw pwy?

## Golygydd:

Mai Rhian Lloyd, 12 Bro Ddewi, Ffosyffin 01545 571234  
Mehefin Eifion ac Yvonne, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,  
Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com  
Teipyddion Nia Davies, Maesglas 480015  
Joy Lake, Llambled

## Gohebwyr Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359  
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922  
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies  
Ffaldybrerin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507  
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238  
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856  
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407  
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325  
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218  
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamlwg 480453  
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257  
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

# Beth yw beth?

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk  
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490  
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856  
Ffotograffwyr Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644  
Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann 421173  
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: [www.clonc.co.uk](http://www.clonc.co.uk) os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: [golygydd@clonc.co.uk](mailto:golygydd@clonc.co.uk)
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i [ysgrifennydd@clonc.co.uk](mailto:ysgrifennydd@clonc.co.uk)
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i [cadeirydd@clonc.co.uk](mailto:cadeirydd@clonc.co.uk).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

## Papur Pwy yw'r W.M.?

'Dwy ddim yn deall y Western Mail yn rhoi cymaint sylw fod y gyllideb wedi codi treth incwm ar rai sy'n ennill dros £100 mil y flwyddyn. Dau ddiwrnod o'r bron cawn y papur yn cydymdeimlo â phobol fel Tom Jones, yn colli £40 miliwn, ond mae ganddo fe £130 miliwn ar ôl. Beth am y miloedd o bobol gyffredin sy'n ddi-waith neu'n gweld cynilion eu cyfrif Banc yn diflannu. Mae'n bryd i'r W.M. gydymdeimlo â'i darllenwyr.

## Cyfraniadau diddorol.

Fel y sylweddola'r mwyafrif ohonoch mae'n anodd i ddod ar draws deunydd newydd bob mis. Diolch felly i ddau o ddarllenwyr Clonc am ddeunydd diddorol.

I fi, gwahadden yw gwahadden, yn medru bod yn boendod ofnadwy ac yn gwneud gerddi a chaeau i edrych yn anniben iawn. Bu'm yn gosod trapiau i'w dal tra'n byw adre, ac yn cael cryn lwyddiant. Clywed am berson arall wedi bod ar gwrs sut i ddal gwahaddod ac yn helpu ei gymdogion trwy osod trapiau. Gwneud y gwaith am ddim ond yn gofyn £20 am bob un a ddaliau.

Cofiaf cwrdd a'r diweddar Dafydd Maes y Dderwen ar fy ffordd i'r ysgol. Dafydd yn cario dryll a minnau'n holi iddo "Saethu brain, Dafydd?" "Nage" meddai "saethu gwahaddod". Minnau'n cymeryd yn ganiataol mae tynnu fy nghoes oedd e. Ond na, roedd yn mynd i'r cae lle roedd y gwahaddod, ac aros yn yr unfan am rhyw hanner awr a disgwyl gweld y gwahadden yn twnelu o dan y pridd, wedyn tanio. Twll gweddol yn

y pridd ond y gelyn yn gelain. "Byth yn methu" meddai Dafydd. Tybed a oes gan ffermwyr heddiw amynedd i aros yn llonydd am hanner awr!

Clywed wnes i am fachgen yn Dryslwyn, Sir Gaerfyrddin wedi dal gwahadden wen. Mae'n rhyfedd fel mae'r cyflwr 'albinism' yn effeithio dynion yr un modd ac anifeiliaid – sef geni heb liw ynghyd â llygaid gwan. Diolch am y wybodaeth.

## Stumog lawn.

Mae'n chwedloniaeth yn llawn o hanesion am y gŵr hysbys yn achub cam y forwyn am iddi godi modrwy o'r llawr a'i rhoi yn ei phoced. Anghofio ei bod yno nes bod chwilio mawr yn y tŷ, ond y gŵr hysbys a alwyd i ffeindio'r lleidr yn achub cam y forwyn wrth ddal pysgodyn ac esgus cuddio'r fodrwy yn stumog y pysgodyn.

Darllen wedyn mewn llyfryn gan Caradog, am yr hyn ddaeth i'r golwg mewn stumogau siarcod. Dyma rai ohonynt: - tair cot fawr, un spaniel cyfan gyda choler am ei wddf, pen a choesau ci tarw (bulldog), un cot law nylon, hanner ham, adar a physgod di-ryfedi, cwarter ôl mochyn, ac i goroni'r cyfan trwydded yrru modur. Cofiwch mae nid mewn stumog un siarc y cafwyd y rhain.

## Cymorth Cristnogol.

Cofiwch fod wythnos Cymorth Cristnogol ar y 10 – 16 o Fai. "Rhowch yr hyn a fedrwyd er mwyn creu gwell yfory i deuluoedd sy'n byw mewn tldi". Llenwch yr amlen ar y cefn fel bod y mudiad yn medru cael ad-daliad treth incwm.

Pob hwyl **CLONCYN**

# Dyfarniad y Darllenydd

## Cyhoeddi llyfr a phriodi

Roedd mis Ebrill yn fis pwysig iawn i ddirprwy-brifathro Ysgol Gymraeg Aberystwyth eleni. Roedd Gareth Lloyd James, sy'n wreiddiol o Gwmann, Llambled yn priodi, ac yn ogystal â hynny, roedd yn cynnal ei sesiynau llofnodi cyntaf fel awdur. Mae Dirgelwch Gwersyll Glan-llyn, y teitl cyntaf yng nghyfres Cawdel, a llyfr cyntaf Gareth ei hun, yn stori ddirgelwch sy'n dilyn criw o blant ar daith breswyl i Wersyll yr Urdd, Glan-llyn. Lleolir tair nofel arall y gyfres yng ngwersylloedd Llangrannog, Caerdydd a Phentre Ifan. Gyda miloedd o blant Cymru yn gyfarwydd â'r lleoliadau a'r gweithgareddau a gynigir yn y gwersylloedd, fe fyddan nhw'n siwr o uniaethu â rhai o brofiadau'r plant yn y nofelau.

Mae'r Urdd yn chwarae rhan bwysig ym mywyd nifer o blant ysgol yng Nghymru ac mae'n agos iawn at galon yr awdur ifanc hwn hefyd. Gareth Lloyd James yw is-gadeirydd pwyllgor gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010 a bu'n llywydd y mudiad rhwng 2007-2008. Mae'n gwybod yn union beth sydd at ddant plant 9-12 oed, yn enwedig y bechgyn, ac fe gafodd ei ddosbarth yn yr ysgol flas ar gynnwys y llyfr cyn ei gyhoeddi.

Fel mae'r teitl yn awgrymu, nofel ddirgelwch yw hon sy'n dilyn anturiaethau criw o blant ar daith breswyl i Wersyll yr Urdd, Glan-llyn.



Mae'r prif gymeriad, sef Glyn, a'i ffrindiau pennaf Jac, Deian a Rhodri, yn fechgyn drygionus a direidus dros ben, ac mae trwbwl yn eu dilyn nhw i bobman. Ar y llaw arall, mae'r merched yn ymddangos fel angylion. Maen nhw'n dda am wneud popeth, ond maen nhw hefyd yn mynd dan groen y bechgyn gyda'u triciau twyllodrus! Wrth i'r plant fwynhau tridiau yn y gwersyll, fe sylweddolwn nad ymweliad cyffredin â'r gwersyll yw hwn. O ddarllen y nofel, cewch weld pam!

Dyma lun o Gareth a Bridget James a briodwyd yn ddiweddar yng Nghapel Brondeifi, Llambled. Dymuna'r ddau ddiolch am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.





**Gwyn Lewis**

Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349

**Gwesty'r Grannell**

Llanwnnen



Bwyd cartref ardderchog,  
Ystafell wydr newydd,  
Yn arlwyio ar gyfer pob  
achlysur,  
Ystafelloedd en-suite,  
Trwydded ar gyfer priodas.  
Cysylltwch â Susan neu Siriol  
☎ 01570 480476



Gall y driniaeth yma eich helpu, os  
ydych yn dioddef o'r canlynol:

- \* Blinder / diffyg egni
- \* Meigrin
- \* Sciatica
- \* Irritable Bowel Syndrome
- \* Menstrual problems
- \* a mwy

Os am ragor o wybodaeth  
cysylltwch â Carol Rees  
01545 590164  
07929 559561

**Tim Jones**



**Ffotograffydd**

Llainwen, Rhodfa Glynhebog  
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol  
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A  
MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth  
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

**Arnold Davies  
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr  
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

## Lle aeth pawb?



Dyma lun o  
ddisgyblion Ysgol  
Cwrtnewydd ar  
y diwrnod yr  
agorwyd yr ysgol  
ar Ebrill 20fed  
1959. Lle aeth  
pawb?

A dyma  
ddisgyblion Ysgol  
Cwrtnewydd  
ar yr union  
ddiwrnod hanner  
can mlynedd yn  
ddiweddarach.

## Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



### Enwau rhai afonydd a nentydd (2)

Y tro hwn byddwn yn ystyried Tyweli, Cothi, Ig a Dulais

Mae Afon Tyweli yn codi ger Alltwalis ac yn llifo trwy Bencader i ymuno â Teifi ym Mhont-tyweli ger Llandysul. Os oedd y posibiladau'n brin y tro diwethaf wrth drafod Teifi, mae'r cynfas ychydig yn rhy eang i sicrhau trafodaeth hollol foddhaol o'r enw Tyweli. Mae modd cydio'r enw wrth yr ansoddair 'dywel' sy'n golygu 'ffyrnig, dewr' ac yn yr achos hwn byddai'n dynodi rhediad gwyllt - sy'n ddisgrifiad digon priodol o'r nant hon.

Ond mae'n bosibl, yn ogystal, inni gydio'r enw wrth yr enw personol Dywel. Mae sôn am arwr o'r enw hwn yn Englynion y Beddau yn Llyfr Du Caerfyrddin; roedd yn ymladdwr dygn a dywedir ei fod wedi ei gladdu yng Nghaeo. Mae enwau personol wedi lledu i fod yn enwau ar lawer iawn o afonydd a nentydd. A phetaem yn dewis y dehongliad hwn, dyma enghraifft arall o enw person wedi lledu'n enw ar afon.

Y trydydd posibilrwydd i'w ystyried yw'r cyswllt â 'diwel' fel yn yr ymadroddion 'diwel y te o'r tebot' neu 'diwel y glaw' neu 'diwel y cart' sef arllwys neu ddymchwel - sydd eto'n ddisgrifiad reit dda o lif yr afon.

Mae Afon Cothi yn enw sy'n gyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom ni; mae'n codi ar Fynydd Mallaen ac yn llifo i Dywi yn Abercothi. Ond nid dyma'r unig Afon Cothi yng Nghymru. Mae afon arall o'r un enw yn codi ar Gefn Merthyr, Sir Forgannwg, ac yn llifo trwy Gwm Cothi i Fargod Taf ger Treharris. Mae llecyn o'r enw Blaen y Cothi ger Olmarch yng Ngheredigion. Ac ystyr Cothi - 'bwrw allan' fel wrth roi genedigaeth neu garthu'r corff, sy'n enw reit addas ar afon gyflym ac yn cysylltu o bosib o ran gwreiddyn ag Afon Clud (Clyde) yn yr Alban. Yr enw ar un o ragnentydd Afon Clud yw Cart ac mae'r ffurf honno'n perthyn i'r Gymraeg 'carthu'.

Mae Afon Du yn llifo drwy Gwm Du, ger Talyllychau a gallai'r ansoddair 'du' gyfeirio at liw tywyll y d'r gan fod yr afon yn llifo oddi ar fawnog neu gallai, o bosib, ddisgrifio lliw tywyll gwely'r afon.

Mae Afon Du yn llifo i Afon Dulais. Y ddwy elfen yn enw'r afon honno yw 'du' a 'glais'; ystyr y cyfuniad yw 'afon ddu'. Mae'r ail elfen sef 'glais' yn dynodi afonig. Dyma'r elfen sy wedi rhoi ei henw i bentref enwog y Glais yn Sir Forgannwg ac mae'n digwydd hefyd yn elfen yn enw llw o afonydd - yn enwedig yn ne Cymru: Afon Morlais (mawr + glais), Afon Gwynlais (gwyn + glais), Afon Marlais (mawr + glais), Afon Dowlais (du + glais) ac wrth gwrs Afon Dulais yn Llanllwni ac yn Llanbedr.

Mae Nant Ig yn Nhalyllychau yn llifo i Afon Du. Mae Ig yn tarddu ym Mlaen Ig sydd ychydig i'r dwyrain o Dal-y-llychau ac mae'n enw arall na allwn fod yn hollol sicr am ei darddiad.

Mae Ig yn digwydd fel enw person, ond mae'r person hwnnw wedi hen ddiflannu yn niwl y canrifoedd heb inni allu dweud dim amdano. Ond mae digonedd o enwau personol wedi lledu yn enwau ar afonydd a nentydd.

Mae lle o'r enw Blaen Igau ger Penbryn yng Ngheredigion ac mae enw cyffredin 'ig' sy'n golygu 'swnian' neu 'ochain'. A byddai hynny'n enw priodol ar nant fechan sy'n sisial ganu ei ffordd dros y cerrig ar ei ffordd chwyddo llifeiriant afon sy'n fwy o faint.

Y tro nesaf byddwn yn trafod Anell a Grannell.





## Merched y Wawr

Talwyd teyrnged i'r diweddar Mrs Dinnie Rees gan y Llywydd Lettie Vaughan. Roedd yn un o aelodau gwreiddiol y Dderi ac y bu yn aelod gweithgar a ffyddlon trwy gydol ei hoes. Cydymdeimlwyd â Delyth ei merch a'u theulu ac hefyd ei chwaer Margaret a'i theulu hithau. Dathlwyd Gŵyl ein nawddsant eleni eto yn y Pantri ac yno gawsom groeso cynnes a gwledd fendigedig o fwydydd. Ein gwraig wâdd oedd y Parch Eileen Davies ac fe gawsom ganddi hanes ei phenderfyniad i ymrwymo ei hun i'r weinidogaeth. Nid oedd yn waith hawdd i fam a ffermwraig i ymdopi a'r gwaith ysgrifenedig, teithio o Gaer i Landaf a Thŷ Ddewi, heblaw ag ymweld â phlwyfolion a phregethu. Ond erbyn hyn mae'r gwaith paratoi drosodd ac mae'n Ficer llawn amser, ac mae'n haeddu cael ei llongyfrach yn fawr am ei dyfalbarhad a'i ymroddiad.

Fe fydd rhai o'r aelodau yn cystadlu yn y Ffair Haf. Anfonwyd llythyron i'r Cynulliad er mwyn hybu defnydd o'r iaith Gymraeg. Rhoddwyd pleidlais wresog o ddiolch i'r Parch Eileen a staff Y Pantri gan Lettie Vaughan. Enillwyd y raffl gan Margaret Jones, Gwyneth Evans, Glenys Lloyd a Gwyneth Jones.

Ar Fawrth 4ydd cawsom wahoddiad i ymuno â Changen

Tregaron. Cawsom fwydydd traddodiadol i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Y gŵr gwadd a fu yn ein diddanu mewn llawer dull ac yn bleserus mewn safon aruchel i'w holl ddatganiadau oedd y Bon. Dafydd Jones, Swyddfynnon.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Mr Odwyn Davies, Olmarch Fawr a'u deulu yn ei profedigaeth o golli eu modryb Marged yn ddiweddar. Roedd hi wedi ymgartrefu yn Canada ers llawer blwyddyn.

## Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i Mrs Dilys Evans, Godre'r Coed ar ôl hanffawd yn ddiweddar. Brysiwch wella.

## Arwerthiant

Cynhelir Arwerthiant ar y dydd Gwener olaf ym mhob mis yn y Neuadd Goffa. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â "West Wales Auctions".

## Heddlu

Ar ddydd Mercher cyntaf ym mhob mis fe fydd cerbyd yr Heddlu yn ymweld â phentref Llangybi. Os oes unrhyw broblem neu angen sgwrs neu wybodaeth arnoch dewch draw i ymweld â'r heddwas.

## MAI

- 9 Diwrnod Agored Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru 10 o'r gloch Adeilad y Goron, Aberystwyth.
- 10 Rihysal y Bedyddwyr – Salem Caio am 3:30y.p.
- 10 Cymanfa Ganu'r Annibynnwyr yn Soar, Llambled am 5y.p.
- 17 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr yng Nghapel Caersalem Parcyrrhos am 2.30y.p. a 6y.h.
- 17 Ras mynydd Sarn Helen 16.5 milltiroedd a rasmus i'r plant. 10-30y.b Clwb Rygbi Llambled.
- 19 Cyfarfod Blynnyddol CLONC yn Nhafarn Cefnhafod Gorsgoch 7y.h.
- 22 Merched y Wawr Bronant a'r Cylch – Cinio dathlu Penblwydd 40 yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Enwau i'r ysgrifennydd 01974 251518 cyn Mai 12fed.
- 24 Cymanfa Ganu Merched y Wawr Bronant a'r Cylch yng Nghapel Peniel, Blaenpennal am 7:30y.h. Yr elw at Ysbyty Tregaron a Chartref Bryntirion.
- 25 Carnifal Cwmann.
- 26 Ras y Llychau 6.30y.h. i blant ac oedolion.

## MEHEFIN

- 6 Rali C.Ff.I. Ceredigion ym Mydroilyn.
- 11 Diwrnod i anrhydeddu Iona Trevor Jones, Cwmann yn Neuadd P J Bangor am 1.30y.p.
- 12 Cyngerdd gan Gôr Cardi-Gân a phlant Ysgol Trefilan yn Theatr Felinfach am 7:30y.h.
- 12 Noson Bingo yn y Ganolfan Cwmann am 8 o'r gloch. Elw tuag at Ysgol Carreg Hirfaen.
- 26 Ras Sarn Helen Ysgol Felinfach. Plant ac oedolion.
- 27 Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog.
- 28 Cymanfa Ganu yn Noddfa am 7 o'r gloch
- 28 Taith Gerdded Ysgol Carreg Hirfaen

## GORFFENNAF

- 4 Ffair Haf Ysgol Y Dderi.
- 10 Ffair Haf Ysgol Llanwnnen.
- 11 Diwrnod Hwyl yng Nghanolfan Cwmann i ddathlu 30 mlynedd y Cylch Meithrin.
- 11 Mabolgampau Cwrtnewydd.

## AWST

- 1 Ffair Fwyd Llambled, Gerddi Prifysgol Cymru Llambled.
- 8 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 14 Sioe Amaethyddol Llambled.
- 28 – 31 Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn Ysgol Llambled.
- 29 Ras Hwyl yn Ysgol Trefilan i blant ac oedolion a barbeciw am 6y.h.

## MEDI

- 13 – 19 Apêl y Gors – wythnos o godi arian gan bentref Gorsgoch.

## HYDREF

- 3 Sioe Ffasiwn Duet gyda chinio aawns yng Ngholeg Prifysgol Llambled. Elw i Sioe Frenhinol Ceredigion 2010.
- 5 Cinio Dathlu Diemwnt S.Y.M.Coedmor Cwmann yng ngwesty Glynhebog Llambled.
- 14 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos.
- 24 Perfformiadau gan enillwyr Ceredigion o'r Rhuban Glas yng Nghapel Soar, Llambled a'r elw i Sioe Frenhinol Ceredigion 2010.

## Llwyddiant i ferched



Alice George, Melanie Morris a Caryl Thomas o dim pêl droed "Merched Teifi" (Teifi Girls Llanybydder) yn derbyn eu tlws ar ôl noson wobrwyo.

## Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan

Caeau Pontfaen – 14 Awst 2009

Llywydd – Mr. Alun Williams, Crown Stores, Llambled.

Mynediad – Oedolion £6 Plant dan 14 £1

Dosbarthiadau – gwartheg, defaid, ceffylau, geifr, moch a sioe gwn.

Manylion ceffylau i law erbyn 26 Gorffennaf

Y babell – cynnyrch fferm, cynnyrch gardd, blodau, coginio, gwin, gwaith llaw, crefftiau gwlad, ffotograffiaeth, cystadlaethau plant a'r Ffermwyr Ifanc.

Arddangosfa hen beiriannau fferm, Arddangosfa crefftiau

Trnament rygbi 7 bob ochr yn syth ar ôl y sioe.

Disgo noson y sioe

Mrs Gwen Davies, Llys Aeron, Llanwnnen – 01570 481152

Mr Aeron Hughes, Cwmhendryd, Llambled – 01570 422654

## Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

\* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)

\* Bwffe mawr neu fach

\* Dantethion i de

\* Pwdinau

\* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Ymgynghorwyr Yswiriant

## Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr

Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority



Yswiriant tŷ/cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

# O'r Cynghorau Bro



## Cyngor Bro Llanybydder

Cadeirydd: Fiona Hughes, Clerc: Mavis Beynon, Cynghorydd Sir: Fiona Hughes, Cyfarfu'r Cyngor ar 31 Mawrth 2009.

Cadarnhaodd y clerc bod posteri newydd wedi'u gosod ar hyd y pentref yn nodi posibilrwydd o etholiad ar gyfer lle gwag ar y Cyngor Bro. Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â'r Cyngor Sir o fewn amser penodol.

Mae cyfarfodydd safle yn cael eu trefnu i drafod diogelwch a pharcio ar Heol Llansawel yn enwedig adeg agor a chau'r ysgol. Mae ymholiadau'n cael eu gwneud am bosibilrwydd cael maes parcio o flaen yr ysgol, petai cyllid ar gael.

Nodwyd bod llawer o waith wedi'i gwblhau yn Bro Einon a mynegodd y Cyngor Bro eu gwerthfawrogiad o'r gwaith hwnnw.

Derbyniwyd rhagor o gwynion am finiau sbwriel oedd heb eu gwagio'n ddigon aml.

Daeth Lyn Beer, Hwylusydd Tai yn Ardaloedd Gwledig Cyngor Sir Caerfyrddin, i gyfarfod â'r cynghorwyr. Swydd newydd a grewyd gan y Cyngor Sir yw hon i asesu'r angen am dai mewn ardaloedd gwledig. Cytunodd wneud asesiad o'r angen yn ardal Llanybydder. Edrychir ymlaen at dderbyn adroddiad maes o law.

Derbyniwyd llythyr gan yr Adran Gyllid Llywodreth Leol yn cadarnhau fod yr uchafswm y gall y Cyngor Bro ei ddosbarthu i elusennau a mudiadau eleni yn codi o £5.86 i £6.15 ar gyfer pob trethdalwr. Mae hynny'n gyfystyr â swm o £6,918.75 yn achos Llanybydder a Rhydcymerau.

Mae'r cwynion am gyflwr y priffyrdd a'r lonydd yn dal i gynyddu. Mae'r Cyngor Bro yn dal i bwyso ar y Cyngor Sir i godi safon heoldd yr ardal i'r safon y rheini yng ngweddill y sir.

## Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Adrian Davies, Clerc: Eric Williams, Cynghorydd Bro a Sir: Eirwyn Williams, Cynghorydd Sir: Fiona Hughes. Cyfarfu'r Cyngor ar 6 Ebrill 2009

Ar ôl hir ddisgwyl mae swyddogion y Cyngor Sir wedi addo dod i gyfarfod safle ger y Lleinau, Cwm-ann i weld y pafin cul sydd yn berygl i blant ac oedolion ar y ffordd i'r Ysgol.

Mae'r wal ger y pafin o Gwmann i Bont Teifi yn dal heb ei hatgyweirio; mae'r Cyngor Bro wedi bod yn cwyno am hyn i'r Cyngor Sir ers dros dri mis.

Derbyniwyd cais i adeiladu Mast dros dro i gasglu gwybodaith am gryfder y gwynt ger Lan Ddu Cilwenau. Nid oedd gwrthwynebiad.

Derbyniwyd cais cynllunio i adfer Cwar Tyhywel i'w gyflwr gwreiddiol. Nid oedd gwrthwynebiad.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Lynne Beer, Hwylusydd Tai yn Ardaloedd Gwledig Cyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnig dod i siarad am gartrefi gwledig. Pendefynwyd eu gwahodd i'r cyfarfod ym mis Mehefin.

Daeth llawer o geisiadau am gefnogaeth i law. Penderfynwyd rhoddi blaenoriaeth i'r canlynol: Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Carreg Hirfaen at y Cwrt Tennis, Eisteddfod yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ieuainc, Cymorth i Ddiodefwyr, Neuadd Sant Iago ar gyfer toiledau i'r rheini ag anabledd.

## Cyngor Tref Llambod

Maer: Derek Wilson, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 26 Mawrth 2009 yn Neuadd San Pedr

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer.

Cyn i'r Cyngor gwrdd, cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus i gael barn trigolion Maesyderi, Gwêl y Creuddyn, Bryn-yr-Eglwys a Penbryn am ddyfodol Cae Maesyderi fel adnodd ar gyfer y dref. Bu'r cae yn rhan o gampws hen Ysgol Gynradd Ffynnonbedr cyn iddi symud i'w safle newydd. Mae'r cae, yn ogystal, wedi bod at ddefnydd y cyhoedd ers dros 17 mlynedd. Mae Cyngor y Dref ar hyn o bryd yn trafod gyda Chyngor Ceredigion delerau lesio'r cae am gyfnod o 3 blynedd. Yr oedd yr aelodau hynny o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn awyddus iawn i'r safle aros yn faes agored at ddefnydd y 100 a rhagor o blant ar stâd Maesyderi. Anogwyd Cyngor y Dref i wella cyflwr y maes ac i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn briodol. Byddai hyn yn golygu gwastatu wyneb arw'r cae a oedd ar hyn o bryd yn gyfor o bridd y wadd a baw ci. Mae angen cywiro'r ffens yn ogystal. Holodd Elizabeth James am ailsefydlu'r llain pêl-droed. Hyderir y bydd modd trefnu dau faes pêl-droed ar y safle. Roedd parc sgelfrio, trac rhedeg a chwaraefan ymhlith yr awgrymiadau eraill a roddwyd gerbron. Gofidiai rhai y gellid adeiladu ar y tir ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd. Petai'r safle'n cael ei gynnal yn briodol ac yn cael ei ddefnyddio'n gyson yn ystod y tair blynedd nesaf, byddai gan Gyngor y Dref ddadl gref dros estyn cyfnod y trefniant.

Wedi clywed bod cŵn yn baeddu'r safle, dadleuodd y cynghorwyr y dylid gweithredu'n llym mewn achos fel hyn. Nododd Ryan Jones, Swyddog Cefnogi'r Heddlu yn y Gymuned, fod y pwnc hwn wedi codi yng nghyfarfodydd

diweddar PACT a'i fod yn cael sylw gan yr Heddlu ar hyn o bryd.

Mae Cyngor Ceredigion yn ystyried cais ar y cyd gan y Cyngor Tref a Heddlu Dyfed-Powys i sefydlu Parth Heb Alcohol yn Llambod. Mae Cyngor Ceredigion wrthi'n paratoi i ymgynghori â'r cyhoedd ar y pwnc ar hyn o bryd. Y cam cyntaf yw rhoi hysbyseb yn y wasg yn nodi bod Cyngor Ceredigion yn ystyried Gorchymyn. Os cymeradwyir hyn, bydd angen ail hysbyseb yn hysbysu'r cyhoedd. Pan fydd y Gorchymyn yn barod i'w weithredu, codir arwyddion pwrpasol.

Cadarnhawyd gan yr Heddlu bod llanciau sy'n goryrru yn achosi pryder yn y dref a bod y pwnc yn cael sylw ganddynt.

Penderfynodd y cynghorwyr i beidio â chaniatáu cyfethol aelodau newydd. Dylai aelodau gael eu hethol trwy bleidlais yr etholwyr.

Nodwyd bod Hysbysfwrdd Cyngor y Dref wedi'i ddifrodi. Byddai'n cael ei atgyweirio yn y man.

Nodwyd y gallai'r Cyngor ddileu graffiti ar eiddo'r Cyngor yn unig.

Roedd y Cyngor yn dal i aros am ateb oddi wrth Swyddfa'r Post Cyf parthed darparu seddau yn Swyddfa'r Post.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn diolch i Gyngor y Dref am ei Adolygiad Blyneddol o'r Polisi Iaith Gymraeg. Yn y dyfodol bydd y Cyngor yn sicrhau bod mudiadau a chyrrff sy'n holi am gymorth ariannol yn adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal yn eu gweithgareddau. Byddai'r Cyng Rob Phillips yn mynd ati i gymnllunio ffurflen briodol.

Nodwyd bod gwaith graenus wedi'i gwblhau yn Heol y Bont a mynegodd y Cyngor eu gwerthfawrogiad o'r gwaith hwnnw gan Gyngor Sir Ceredigion.

Cynhelir y Pwyllgor Misol nesaf Nos Iau, 30ain o Ebrill am 7.30pm, yn yr Hen Goleg, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

Cynhelir Cyfarfod Blyneddol Cyffredinol Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan yn Neuadd yr Hen Goleg, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan Nos Wener 1af o Fai 2009 am 6.30pm.

## Cyngor Cymuned Llanybi

Cadeirydd: Heather Holgate., Clerc: Mrs Mair Spate, Cynghorydd Sir: Odwyn Davies, Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Mawrth 2009.

Bu cais cynllunio Rhydygof Isaf yn llwyddiannus.

Derbyniwyd cais am ganiatâd i adeiladu ty a modurdy ym Mhont Creuddyn.

Rhoddyd bin grean newydd ar Heol y Tŵr a chaiff yr un ger Llwynfelig ei ail lenwi.

Derbyniwyd gwybodaeth am y trosglwyddo i deledu digidol oddi wrth yr Awdurdod Darlledu a gwybodaeth am Fasnach Deg oddi wrth arweinydd Cyngor Sir Ceredigion.

## Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Alun James, Clerc: Wenella Evans, Cynghorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 21 Ebrill 2009

Derbyniwyd e-bost drwy law'r Cyng. Geraint Hatcher oddi wrth y Cyngor Sir yn dweud mai eiddo'r Cyngor Cymuned yw'r cysgodfan sydd tu allan i'r Neuadd yng Nghors-goch. Penderfynwyd gofyn am llythyr swyddogol oddi wrth bywllgor y neuadd cyn symud ymlaen.

Trafodwyd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion. Nid yw'r cyngor yn hapus am dai fforddadiwy sydd i'w hadeiladu yn y dyfodol. Teimlwyd bod angen gwell cefnogaeth i bobl leol a hyblygrwydd am dai fforddadiwy.

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn rhoi caniatâd i wneud y gwaith blyneddol ar lwybr Glanyrafon, Cwrtnewydd.

Cynigwyd bod y Cyng. Alun James yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned yng nghyfarfodydd Un Llais Cymru yn y dyfodol.

Penderfynwyd cefnogi'r achosion canlynol: Cancer Colo-Rectal Canolbarth Cymru a Manon Richards (taith i Kenya).

Mae'r Cyngor wedi cefnogi'r cais am fannau atal cyflymder tu allan i Llygad y Haul, Alltlyblaca a gerllaw Foelfechan, Drefach.

GORSAT BRAWF  
MOT



GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair  
Llambod  
SA48 8JX


Ffôn: 01570 422305  
Ffôn Symudol: 07974 422305

PERIANT GOLCHU  
CEIR PORTH  
AR AGOR  
7 DIWENOD YR  
WYTHNOS

*Dewch i ein safle newydd am wasanaeth prydlon a chyfeillgar*

\* Gwasanaethu ac Atgyweirio \* Prisiau Cystadleuol am Deirs \*  
\* Egsôsts \* Batris \* Brêcs \* Ceir Newydd ac Ail-law ar werth \*





## Ceredigion

### Penwythnos Cymraeg Cymru

Teithiodd nifer o aelodau'r Sir i Rhuthin i gystadlu yn y cystadleuaeth Pantomeim, Cwis a'r Siarad Cyhoeddus. Cafwyd cryn lwyddiant gyda Sir Ceredigion yn ail ar ddiwedd yr holl gystadlu. Dyma'r canlyniadau:-

Pantomeim – Clwb Pontsian yn 3ydd, Einir Ryder a Teleri Morris  
– Actoresau Gorau, Blaenoriaethau Technegol – Pontsian yn 1af  
Siarad Cyhoeddus – Dan 14 = cydradd 3ydd, Dan 16 = cydradd 2il, Dan 21 = 1af, Dan 26 = 2il

Llongyfarchiadau mawr i bawb ac yn enwedig Catrin Jones, Mydroilyn am ennill y Siaradwraig Orau dan 21 oed.

### Cwis Iau y Sir

Bu cystadlu brwd rhwng y clybiau yn y gystadleuaeth hon gyda 28 o dîmau'n cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i glwb Llandeiniol am ddod yn fuddugol gyda Llangwryfon B yn ail a Llangwryfon A yn drydydd.

### Diwrnod Maes y Sir

Cynhaliwyd ein Diwrnod Maes yn Nhregaron ar Ddydd Sadwrn y 4ydd o Ebrill gyda cynnydd yn y nifer o aelodau a oedd yn cystadlu. Dyma'r canlyniadau:- Effeithlonrwydd gyda Diogelwch – Troedraur, Ffensio – Talybont, Sialens ATV – Llangwryfon, Stocmon Hŷn – Llanwenog, Stocmon Iau – Caerwedros, Diogelwch Iau – Llanwenog, Sialens Natur Iau – Caerwedros, Clwb Buddugol – Llanwenog; 2il – Caerwedros; 3ydd – Llandeiniol.

Cynhaliwyd hefyd y gystadleuaeth Hyrwyddo Clwb a Llongyfarchiadau i glwb Llanwenog ar ddod yn fuddugol. Dymuniadau gorau i chi wrth gynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Rhodri Morris o glwb Pontsian ar gael ei ddewis yn Aelod Iau y Flwyddyn ac i Alwen Jones ar gael ei dewis yn Aelod Hŷn y Flwyddyn. Pob hwyl iddynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

### Digwyddiadau

Mai 16 – Chwaraeon y Sir yn Ysgol Uwchradd Llambled, Mehefin 6 – Rali'r Sir ar fferm Gafryw, Mydroilyn, Mehefin 19 – Tynnu'r Gelyn yng Nghlwb Rygbi Aberaeron, Mehefin 21 – Rygbi 7 bob ochr yng Nghlwb Rygbi Aberaeron, Mehefin 28 – Chwaraeon Cymru yn Aberhonddu.

## Sir Gâr

### Llwyddiant yng nghystadleuthau Cymraeg C.Ff.I Cymru

Ar benwythnos y 27ain a 28ain o Fawrth teithiodd nifer o aelodau C.Ff.I Sir Gâr ian i Ruthun i gystadlu ym 'Mhenwythnos Cystadleuthau Cymraeg Lefel Cymru. Wedi ennill y fraint o gystadlu yn sgîl eu llwyddiant ar lefel Sirol mi wnaeth yr aelodau fwynhau y profiad o gystadlu yn erbyn Clybiau o bob rhan o Gymru a daethant a chlodd i'w Clybiau ac i'r Sir. Bu yna gystadlu brwd trwy gydol y penwythnos gyda Mudiad C.Ff.I Sir Gâr yn gorffen yn 1af ar ddiwedd y dydd- canlyniad arbennig.

Cynhaliwyd Cystadleuthau Siarad Cyhoeddus ar Ddydd Sadwrn a Sir Gaerfyrddin unwaith yn rhagor yn profi bod ganddynt Siaradwyr o fri.

Daeth tîm Sir Gâr (Rhian Davies, C.Ff.I Llanllwni, Dewi Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi a Sioned Davies, C.Ff.I Llanfynydd) yn 1af yn yr Adran Iau.

Llongyfarchiadau arbennig i'r holl unigolion a chlybiau ar eu llwyddiant a diolch arbennig i'r holl hyfforddwyr sy'n rhoi o'u hamser er lles ieuencid Sir Gâr. Diolch yn fawr iawn i bawb.

### Diwrnod Gwaith Maes C.Ff.I Sir Gâr 2009

Cynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes Flynyddol Ffermwyr Ieuaine Sir Gâr ar Sadwrn, 4ydd Ebrill 2009 ym Mart Caerfyrddin, Nantyci trwy caniatad caredig Bob Jones Prydderch a'i gwmni.

Diolch arbennig i Gwmni Simons Construction am fod yn brif noddwyr y diwrnod ac am eu cefnogaeth parod i'r Mudiad yn Sir Gâr.

Yng nghystadleuaeth Stocmon Hŷn bu 19 yn brwydro am deitl Stocmon y flwyddyn: 4ydd= Dylan Jones, Cwmann

Fe wnaeth 24 gystadlu yn y gystadleuaeth 'stocmon iau y flwyddyn': 1af= Eirwyn Richards, Dyffryn Cothi, 3ydd= Rhydian Thomas, Cwmann, 4ydd=Iestyn Russell Cwmann.

Mae Cystadleuaeth gwneud arwydd i hysbysebu Rali flynyddol C.Ff.I Sir Gâr yn un poblogaidd iawn erbyn hyn gyda 12eg o glybiau yn dangos eu doniau artistig. Am yr ail flynedd yn olynol C.Ff.I Llanllwni daeth i'r brig

### Dawns Pasg

Ar Nos Wener y Grogolith cynhaliwyd Dawns C.Ff.I llwyddiannus iawn yn y 'White Hart', Llandeilo lle cyhoeddwyd Llysgenhades a Dirprwion newydd y Sir am y flwyddyn sydd i ddod yn ogystal ac Aelod Iau a Hŷn y flwyddyn. Llysgenhades- Meinir Jones, C.Ff.I Llanfynydd, Dirprwyon- Elin Thomas, C.Ff.I Llangadog, Carys Thomas, C.Ff.I San Ishmael, Angharad Thomas, C.Ff.I Dyffryn Tywi & Louise Jones, C.Ff.I Cwmann. Aelod Hŷn y Flwyddyn 2009 - Ffion Jones, C.Ff.I Llanfynydd, Aelod Iau y Flwyddyn 2009 - Ffion Rees, C.Ff.I Llanfynydd.



Llys y Frân oedd ras gyntaf y mis, Glyn Price yn ennill mewn amser o 37 munud a 38 eiliadau, ac yn ail oedd Michael Davies 38 munud 5 eiliad ac yn cael y wobr gyntaf i'r dynion a Huw Price yn ail, ac yn 5ed yn y ras 44 munud, 14- Lyn Rees 49m 48e, ac yn drydydd dynion 50, 21- Jan Jones 55m 11 e, 3ydd menywod 35, a Allan Watts lawr 40munud a 18 eiliadau, ac yn drydydd i'r dynion 60

Bu Carys Davies yn cystadlu yn ras pencampwriaeth Cymru yn Llanilltud Fawr, ac ennillodd y fedal arian ac yn gorffen yn y safle 19fed.

Sul y Pasg ac Sarn Helen oedd yn cyflwyno ras Teifi 10 a phencampwriaeth Cymru. Roedd y ras wedi cael eu noddi gan Lomax Llambled a Dŵr Llanllyr, Talsarn. Roedd 150 o rhedwyr, a'r cyntaf nôl oedd Christopher Davies o Telford AC yn yn torri y record mewn amser o 1 funud a 35 eiliadau.

Canlyniadau Ras Teifi 10. ras agored, 1af – Christopher Davies Telford AC 50 m 12 e 2fed Dewi Griffiths Carmarthen Harriers 53m 2e. 3ydd Rob Samuel Eryri Harriers 53m 43 e. Dynion 40 1af Lee Aherne Les Croupiers 54m 47e, 2fed Paul Talbot Neath Harriers 56m 52e, 3ydd Glyn Price Sarn Helen 56m 56e. Dynion 50 1af Mick McGeoch Les Croupiers 50m 55e, 2fed Arwel Lewis Eryri Harriers 63m 3e, 3ydd Dic Evans Cardiff AC 63m 24e.


Caryl Jones TROTS ennillodd y categori menywod agored 62m 9e, 2fed Kat Steed Pembs Harriers 65m 57e, 3ydd Erika Schmid Buckley Runners 66m 54e. Menywod 35 1af Melaine Ellis Shaftesbury Barnet 64m 25e, 2fed Shan Roberts Ingli Runners 64m 56e, 3ydd Rachel Allcock Amman Valley 68m 16e. Menywod 45 1af Dawn Gibbs York Acorn 66m 37e, 2fed Sandra Pintcham Port Talbot 66m 46e, 3ydd Dawn Kenwright Sarn Helen 73m 12e.

Enillwyd y tîm dynion gan Eryri Harriers, a'r menywod gan Sarn Helen – Carys Davies, Dawn Kenwright, Monica Barlow, Dee Jolly.

Yn y pencampwriaeth ennillwyd y fedalau Aur gan Carwyn Thomas dan 23, Glyn Price vet 40, Richard Marks, Vet 55 a Mark Dunscombe yn cael y fedal arian vet 45. I'r menywod Dawn Kenwright Vet 50, a Monica Barlow Vet 55, yn cael y fedalau aur, a Carys Davies yn cael y fedal arain o dan 23.

Tîm menywod Sarn Helen yn cael y fedal Aur, Carys Davies, Dawn Kenwright a Monica Barlow, a'r dynion hefyd yn cael medal Aur, Glyn Price, Michael Davies, Carwyn Thomas a Mark Dunscombe. Vet 40 tîm A Sarn Helen yn ennill y fedal Aur Glyn Price, Michael Davies, Mark Dunscombe, a tîm B yn cael y fedal Arian, Richard Marks, Huw Price Tony Hall.

Ar fore hyfryd o Ebrill aeth y rhedwyr i Abergwaun i gystadlu mewn ras 10K. Glyn Price yn ennill y ras 34m 42e, Michael Davies yn ail, 35m 20e, ac yn gyntaf vet 40. 8 Huw Price 40m 19e, 9 Simon Hall 40m 40e, 10 Tony Hall 40m 43e ac yn gyntaf vet 50, 16 Carys Davies 42m 7e, cyntaf menywod agored, 25 Dee Jolly 45m 43e, 26 Lyn Rees 46m 39e, 36 Jan Jones 51m 22e, 37 Caryl Davies 51m 53e.



Dyma lun o Caryl Davies a Carwyn Thomas o glwb Sarn Helen a fu yn cystadlu yn Marathon Llundain, Carwyn yn gorffen mewn 3 awr 18 munud 2 eiliad, a Caryl 3 awr 59 munud a 2 eiliad. Hefyd gorfennodd Mark Dunscombe 3 awr 6 munud a Caroline John 3 awr 21 munud a 35 eiliadau.



Clwb Llanllwni yn ennill cystadleuaeth gwneud arwydd y Rali.



# Drefach a Llanwenog

## Y Gymdeithas Hŷn

Cychwynnodd tymor triapiau haf y gymdeithas ym mis Ebrill, a threuliwyd diwrnod braf yn Aberystwyth. Trefnwyd ymweld ag Amgueddfa Ceredigion yn ystod y prynhawn, a phryd o fwyd yng Ngwesty'r Marine cyn dod am adre.

Bydd y trip nesaf yn mynd i Gaerffili, dydd Mercher, Mai 13eg; y bws i gychwyn o Lamed am 8.30 y.b. Enwau i Yvonne, 480 590.

## Sefydliad y Merched.

Yn absenoldeb ein llywydd croesawyd ni i gyfarfod Mis Mawrth gan un o'r is-lywyddion – Jackie Penny. Bu pedair o'r aelodau yn dangos rysetiau, rhai nad oedd eisiau eu coginio. Cafwyd orig fach ddiddorol iawn.

Ym mis Ebrill ein is-lywydd Julia Griffith Jones oedd yn y gadair i groesawu Mrs Yvonne Davies atomm i roi hanes Stryd Fawr Llamed fel yr oedd flynyddoedd maith yn ôl. Roedd yn agoriad llygad i ni gyd.

## C.Ff.I Llanwenog.

Ar y 4ydd o Ebrill 2009, daeth y clwb yn fuddugol yng nghystadleuaeth diwrnod maes y sir a gynhaliwyd ym mart Tregaron. Dyma'r canlyniadau,

Tîm barnu stoc iau yn 4ydd (Gethin Hatcher, Aled Jones, Sioned Evans, Daniel Morgans a Sion Griffiths) gyda Gethin Hatcher yn 3ydd fel unigolyn, y tîm barnu stoc dan 26 (Steffan, Arwel, Helen a Heilin) yn gyntaf, Dioglewch ac Effeithlonrwydd (Gethin, Steffan, Arwel a Ceredig Sisto) yn 2il, Cwis diogelwch iau (Gethin Hatcher a Angharad Lewis) yn gyntaf, y sialens natur (Sioned Hatcher a Carwyn Davies) yn ail. Llongyfarchiadau mawr i bawb. Pob hwyl i Gethin Hatcher a fydd yn cynrhychioli Cymru fel aelod o'r tîm barnu stoc iau.

Daeth llwyddiant pellach i'r clwb wrth iddynt ennill y gystadleuaeth hyrwyddo clwb. Yr aelodau a fu yn cystadlu oedd Manon Richards, Elin Jones, Sioned Davies a Lyn Jenkins. Pob lwc iddynt yn awr yn y sioe frenhinol ym mis Gorffennaf.

Yna ar y 6ed o Ebrill 2009, teithiodd llawer o aelodau ifanc y clwb i neuadd Pontsian i gystadlu yn cwis iau y sir. Fe fu yn noson hwylus iawn, braf gweld gymaint o aelodau ifanc yn mwynhau ym mwrllwm y mudiad.

Ymlaen at fwy o gystadlu yn y gala nofio yn Aberaeron. Daeth y clwb yn 3ydd ar ddiwedd y noson. Cafwyd noson difyr iawn gyda aelodau yn nofio mewn sawl cystadleuaeth gan gynnwys ras gyfnewid gyda phêl a ras gyfnewid gan wisgo cot wen.

Ar yr 20fed o Ebrill, daeth tri

cymeriad atom i gymeryd rhan mewn seiat holi sef, y Cyng. Gareth Lloyd, cadeirydd y sir Daniel Downes a Meinir, Brenhines Sir Gar. Fe ddaethom i'w adnabod lot yn well ar ôl y noson hon.

Llongyfarchiadau mawr i Nia Evans, un o arweinyddion y clwb sydd wedi cael ei phenodi yn swyddog bro y mudiad. Pob hwyl i ti Nia yn dy swydd newydd.

Yr ydym ar hyn o'r bryd yn brysur yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth chwaraeon y sir ac hefyd y rali.

## Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Jim Evans, Fronwen ar ôl iddo dderbyn llaw driniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli.

## Ysgol Llanwenog

Croeso cynnes i Sara Thomas a Moe Willis i Ddosbarth y Babanod ac maent i weld yn ymgartrefu'n dda yn ein plith.

Cafwyd diwrnod hynod o lwyddiannus wrth i ni gynnal Eisteddfod Ysgol yn Neuadd yr Eglwys yn Llanybydder. Beirniaid y dydd oedd Ms. Owenna Davies a Mr. Twynog Davies. Diolch o galon iddynt am roi o'u hamser prin i'n cynorthwyo i sicrhau fod y diwrnod yn un llwyddiannus. Carwn longyfarch bob plentyn am eu parodrwydd a'u hyder wrth ymddangos ar y llwyfan a nifer helaeth ohonynt yn gwneud hyn am y tro cyntaf erioed! Ar y brig eleni ar ôl cystadlu brwd oedd tîm Cledlyn. Braf oedd gweld cymaint o rieni a ffrindiau'r ysgol wedi dod i gefnogi'r plant. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r gwragedd a fu'n gweithio'n ddiwyd yn ystod y dydd yn paratoi lluniaeth ysgafn ac i bawb arall a wnaeth gyfrannu tuag at llwyddiant y dydd. Aeth Côr yr ysgol i gystadlu yn Eisteddfod Gylch yn Llamed a carwn eu longyfarch am gymryd rhan. Diolch yn fawr iawn i Mrs. Alwena Williams am gyfeilio ac i Dewi Uridge am chwarae'r drymiau. Edrychwn ymlaen i gydweithio gyda chi eto.

Lawnsiwyd gwefan gwreiddiol yr ysgol ychydig cyn i'r ysgol ddathlu ei phen-blwydd yn 140ain oed o dan arweiniad y Cyng. Owen Llywelyn ac yn ddiweddar rydym wedi cael ein dewis i gydweithio gyda myfyrwyr a darlithwyr o Brifysgol Llamed mewn cynllun peilot sy'n edrych ar wefannau ysgolion cynradd ar draws y Sir. Gobaith y prosiect yw i fedru lledaenu'r arfer dda gyda holl ysgolion cynradd y Sir. Felly, ar ran yr ysgol mae Mrs Lorraine Davies wedi mynychu tri sesiwn o hyfforddiant. Ac erbyn y rhifyn nesaf o 'Clone' mawr hyderwn y



Disgyblion hŷn Ysgol Llanwenog mewn gweithdai yn ymwneud â storïau o'r Testament Newydd.



Yn ystod "Diwrnod o chwarae a chacen", ymwelodd Tim Dicker, o orsaf dân Llamed i siarad â'r plant. Roedd y digwyddiad yn rhan o weithgareddau i godi arian i Gylch Meithrin Gwennog, Llanwenog.

byddwn yn medru cyhoeddi'r safle, ar ei newydd wedd, yn agored.

Pleser o'r mwyaf hefyd gennym fel ysgol yw datgan ein balchder fod Ms. Eleri Davies ein Cogyddes wedi cyflawni'r Safon Arian yng Nglendid Bwyd Cymru. Llongyfarchiadau mawr iddi.

I ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni buom yn dra ffodus i gael ymweliad gan Sali Mali ym mherson Mrs. Linda Davies o Gwyddgrug. Mawr yw ein dyled iddi am baratoi diwrnod o weithgareddau amrywiol gogyfer â'r ysgol gyfan.

Treuliodd Rhieni, Staff a phlant yr ysgol Sadwrn braf cofiadwy ym mis Mawrth yn cydweithio gyda Chwmni 'Living Willow Wales' yn adeiladu Twneli yng nghae yr ysgol. Diolch i bawb am eu brwdfrydedd wrth gwblhau'r adeiladwaith mewn diwrnod!

Cynhaliodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol Noson o Fingo llwyddiannus yng Nghlwb Rygbi Llanybydder y mis diwethaf. Diolch i Mr. a Mrs. Morris am gynnal y noson ar ein rhan ac am gyfrannu eitem i'w gwerthu ar y noson.

Bu aelodau'r Clwb Drama yn cyflwyno arddangosfa o'u gwaith yn Neuadd Bentre Talgarreg. Roeddent yn amlwg wedi mwynhau'r profiad a diolchwn i Theatr Felinfach am drefnu'r Clwb yma am ddim i'r plant.

Derbyniodd aelodau o Gyngor yr Ysgol ymweliad gan ein Cynghorydd lleol sef Mr. Haydn Richards. Trafodwyd llawer o faterion amserol. Diolchwn iddo am dderbyn y gwahoddiad.

Bu'r disgyblion Hŷn yn dra ffodus y tymor yma i fod yn rhan o weithdai yn ymwneud â storïau o'r Testament Newydd o dan arweiniad Mrs. Janet Hawkins o Gymdeithas 'Ymchwilio'r Beibl'.


Dyma restr o ganlyniadau Clwb 100 Mis Chwefror : Gwobr gyntaf – Mr. a Mrs. Geraint Davies, Llysderi, yr ail wobwr – Mr. Arwyn Jones, Gellideg a'r drydedd wobwr – Mrs. Caroline Davies, Derwendeg. Canlyniadau Clwb 100 Mis Mawrth : Y wobwr gyntaf - Mrs Rose Evans, Llwynrhos, yr ail wobwr - Mr Terry Owen, Crisden House, Llanybydder a'r drydedd wobwr – Mr. Mark Evans, Llwynrhos.

Ar ddiwedd y tymor ffarweliwyd â Miss Rachel Pugh, ein Myfyrwraig o Goleg y Drindod. Diolch iddi am ei hymroddiad a dymuniadau gorau iddi am y dyfodol.

## Cylch Meithrin Gwennog

Cynhaliwyd Diwrnod 'Cacennau a Chwarae' ym Mis Mawrth yn Neuadd Eglwys San Pedr. Buom yn ffodus iawn y tro yma i gael Mr. Tim Dicker, dyn tân o Lamed i siarad â'r plant ynghlŷn â





pheryglon tân. Hefyd mwynhaodd y plant sesiwn yng nghwmni Miss Megan Evans, o Neuaddlwyd a fu'n darllen stori a chreu cardiau pasg gyda'r plant. Bu aelodau o Sefydliad y Merched Llanwenog yn cynorthwyo gyda'r tê. Dymunwn ddiolch i bawb a wnaeth sicrhau llwyddiant y dydd.

### Diolch

Dymuna Margaret Evans, Ysgol Llanwenog, a'r teulu i gyd ddiolch yn ddiffuant am bob cefnogaeth a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn o golli Mam, Mam yng nghyfraith, Mamgu a Hen-Famgu annwyl yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

### Cydymeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Helen a Peter Howells, Tŷ Cam ar golli ei mamgu a Gwenda a John, Bwlchmawr a'r teulu ar golli modryb ar ddechrau mis Ebrill ym mherson Hannah Jane Jones a oedd wedi ymgartrefu yng Nghartref Maesyfelin, Drefach ers peth amser.

### Eglwys Llanwenog

Daeth nifer o aelodau a ffrindiau i ymuno gyda'r Ficer Parch Bill Fillery yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaid ar Sul y Pasg. Diolch i'r Ficer am ei rhodd o gannwyll Pasg hyfryd. Cafodd ei chynnu ar ddechrau'r oedfa i ddathlu atgyfodiad Crist. Cyfeiriodd hefyd mae dyma'r gwasanaeth Pasg olaf iddo ymgymryd yn eglwys Llanwenog oherwydd ei ymddeoliad dechrau blwyddyn nesaf Ionawr 2010. Fe welwn ei eisiau yn fawr iawn.

Yn ôl ei arfer bu'r gwragedd yn addurno'r eglwys gyda gosodiadau celfydd iawn o flodau. Diolch arbennig i Bronwen am ei rhodd o Lili'r Pasg a gosodwyd ar yr allor. Diolch i bawb am eu parodrwydd a'u cyfraniadau mewn arian a blodau, y cyfan yn cyfrannau at naws hyfryd a gogoneddus y dydd arbennig hwn.

Ymfalchiwn yn llwyddiant Rhian Wyn Thomas, Llechwedd a dderbyniodd dyfarniad "Elite Cymru" oddi wrth Cyngor Chwaraeon Cymru. Bydd hyn yn galluogi Rhian i gyrraedd ei photensial yn ei gyrfa ym myd Golff. Mae Rhian hefyd wedi ei henwi fel aelod o garfan Prydain Fawr ag Iwerddon a fydd yn cystadlu yn y 2009 Vagliano Trophy yng Nghlwb Golff Falkenstein Hennburg, Yr Almaen ar y 24ain a 25ain o Orffennaf. Mae newydd ddychwelyd o Sbaen lle y bu

yn ymarfer gyda merched Cymru cyn iddynt gystadlu yng Nghwpan Gwledydd ewrop yn Ne Sbaen. Pob lwc am ddyfodol disglair Rhian.

### Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Dilwyn ac Elizabeth Thomas, Pantffynnon ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ystod mis Ebrill. Iechyd da i chwi eich dau i'r dyfodol. Ymlaen i'r AUR nesaf.

### Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Getta Evans, Melrose sydd wedi treulio peth amser yn yr ysbyty.

### Priodas Berl

Dymuniadau gorau i Paul a Bessie Williams, Clyncoch ar ddathlu eu Priodas Berl yn ystod mis Ebrill. Ymlaen a chwi i'r Ruddem nesaf.

### Llongyfarchiadau

Clywyd yn ystod y mis am llwyddiant Gethin Hunter, Gwenfryn ar gael ei gap Cyntaf dros Gymru mewn rygbi.

### Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd

Ar Ebrill 7fed cynhaliwyd helfa Wŷ Pasg yn Neuadd yr Ysgol ar gyfer y plantos bach. Braff oedd gweld eu gwynebau wrth iddynt cael gafael mewn Wy siocled. Yn dilyn yr helfa gwneud gwaith celf yn ymwneud â'r Pasg oedd y gweithgaredd.

Ar ôl gwyliau'r Pasg fe ail ddechreuwyd Cylch Ti a Fi ar Ebrill 21ain. Prynhawn o chwarae a chael sbri oedd y nôd gyda phawb wedi mwynhau'r amryw o gemau a gweithgareddau a baratowyd ar eu cyfer.

Ar Ebrill 28ain a gan fod blwyddyn ers sefydlu'r Cylch cynhaliwyd parti dathlu yn y Neuadd yng nghwmni Sarah o gwmni Jambori, Caerfyrddin. Paratowyd cacen pen-blwydd ar ein cyfer gan Sirian ac roedd yn brynhawn braff o edrych yn ôl dros y flwyddyn llwyddianus sydd wedi mynd heibio.

Hoffwn ddymuno pob hwyl i Luc sydd wedi ymadael a'r Cylch gan fod wedi dechrau yn Ysgol Gynradd Pontsian ar ôl y Pasg.

Os oes diddordeb gydag unrhyw un i ymuno gyda ni rydym yn cwrdd ar brynhawn dydd Mawrth rhwng 1.15-3.30 yn Neuadd Ysgol Cwrtnewydd (Tymor ysgol yn unig). Os am ragor o fanylion mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol ar 01570 434273.

### Ysgol Cwrtnewydd

Croeso cynnes i blant newydd ag ymunodd a ni ar ôl Pasg, sef Skye Binding, Danny Waterman ac Alaw Jones.

Daeth y deintydd i ymweld a'r ysgol gan ein bod yn y cynllun brwsio dannedd ar ôl cinio. Cafodd y babanod gyfle i eistedd mewn cadair deintydd, tra bu'r plant hynaf yn edrych trwy meicrosgop.

Bu Meinir Davies, Luned Jones, Iwan Evans a Rhys Davies yn cystadlu yn ail rownd y Cwis Llyfrau. Gwnaeth y tîm yn arbennig

# Cwrtnewydd



Tîm Cwis Llyfrau Ysgol Cwrtnewydd

o dda i ennill y gystadleuaeth yn gydradd gyda Felinfach a Llanilar. Cafodd y plant 167 allan o 167 o bwntiau, tipyn o gamp! Diolch i Mrs Wendy Davies am eu hyfforddi.

Bu nifer o'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd. Cafwyd llwyddiant arbennig gyda Elin Davies yn ennill y Cerdd Dant blwyddyn 2 ac iau a hefyd yn sicrhau 2il yn yr adrodd a unawd i blant blwyddyn 2 ac iau. Cipiodd yr Ymgom y safle cyntaf a Parti Unsain y 3ydd wobwr. Da iawn chi blant. Dymunwn pob lwc i Elin Davies ac i Meinir Davies, Luned Jones, Rhodri Hatcher a Iwan Evans yn yr Ymgom yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd yn ystod gwyliau'r Sulgwyn.

Daeth Roy Evans o'r Brigad Dân, Aberystwyth i ymweld ar phlant yr ysgol. Bu'n sôn wrthynt am bryderon tân ac ati. Bu'r sesiwn o fudd mawr i'r plant.

Ymunodd holl blant yr ysgol yn Jambori'r Urdd a gynhaliwyd ym Mhontrhyfendigaid. Cafodd y plant eu diddanu gan Gwenda Owen.

Bu plant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn cerdded tua tair milltir oedd yn rhan o'r daith i gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2010 yng Ngheredigion. Cafodd y daith ei harwain gan Mr Ieuan Roberts.

Bu'r plant yn ffodus iawn i gael dau gyn-ddisgybl sef Mr Lyn Rees a Mr Hefin Jenkins a oedd wedi symud o'r hen ysgol yn y pentref i fyny i'r ysgol newydd ar y bryn hanner cant o flynyddoed yn ôl. Roedd y plant wedi paratoi cwestiynau niferus i ofyn iddynt, dysgodd y plant a'r staff dipyn am hanes Ysgol Cwrtnewydd.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Eleri Jones, cogyddes yr ysgol, ar dderbyn gwobr bwyd iach Curiad Calon.

### Llwyddiant

Daeth llwyddiant eithriadol i Paul a Bessie Williams a'r teulu, Clynoch yn ystod y mis pan gawsant nifer o wobrau o dan y 'National Milk Records' yn ei noson wobrwyo diweddar yn Nhafarn Ffostrasol. Hyfryd iawn yw clywed fod ffermwyr yn dal i gynhyrchu llaeth

o'r safon uchaf gyda buches o wartheg godro bendigedig.

### Priodas Dda



Ar ddydd Sadwrn Ebrill y 4ydd priodwyd Catrin merch Wyn ag Irene Richards Llandysul ac Eilir mab Paul a Bessie Williams, Clyncoch Cwrtnewydd. Cynhaliwyd y briodas yng nghapel Seion Llandysul a'r wledd yn Nhy Glyn Aeron, Ciliau Aeron.

# Cwmsychpant

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Nanna, Gareth, Deian ag Einir, Tyngrug-ganol ar golli mam, mam yng nghyfraith a mamgu annwyl sef Mrs Mair James o Dregaron.

### Anffawd

Rydym i gyd yn meddwl am Eurwyn a Mary Davies, Maesnewydd yn dilyn tân erchyll fu ar eu fferm ynghanol y mis. Mae pawb yn meddwl amdanoch.

### Llwyddiant

Daeth llwyddiant i ran Meinir Davies, Caerwenog; Meleri ac Elin Davies, Tyngrug-Isaf a Beca Jenkins, Hafan y Cwm yn Eisteddfod Capel y Groes yn ystod y Pasg. Da iawn chi a daliwch ati i gystadlu.



**Ceris Morgan**  
yn trin gwallt yn eich cartref



**Tori a sychu, steilo a llwio,  
cwrlo a gosod gwallt ar gyfer  
achlysuron arbennig.**

Prisau rhesymol.  
**Ffoniwch: 07738 492613**  
Cwmann  
ond yn barod i deithio'r ardal.

**Terry Jones**



**Ffotograffydd**  
**www.terrywjones.co.uk**

1 Cwrt Deri  
Cwmann  
Llanbedr Pont Steffan  
01570 421 173  
07970825724

**Mwnci ffwnci**



Brodweithio  
a Phrintio Dillad.  
Darparu  
Dillad Gwaith  
a Hamdden.

**Sioned Green**  
a **Mared Jones**

Nantgwyn,  
Heol Llanfair  
Llambod

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

**COMPASS**  
**OFFICE**  
**SUPPLIES**

Am eich holl  
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol  
Llambod, Heol Tregaron,  
Llambod.

01570 422955  
01570 422232



**Toriad**  
**Taclus**

Mae Toriad Taclus  
Wedi newid siop  
Mae ar Heol Caerfyrddin  
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

# Cwmann

## C.F.F.I. Cwmann.

Dros yr wythnosau diwethaf mae'r clwb wedi bod yn brysur iawn gyda nifer o wahanol weithgareddau. Aeth criw o aelodau'r clwb lawr i Caniston bowl ar gyfer noson o fowlio deg ar ddechrau'r mis ac yna fe aeth y goreuon ymlaen i gystadlu ar lefel sir. Braf yw cael dweud fod tîm hyn bowllo deg clwb Cwmann sef Simon Jones, Louise Jones, Carwyn Lewis ac Iestyn Russell wedi dod yn fuddugol a chipio'r tlws ar lefel Sir. Da iawn i aelodau'r tîm iau sef Gwawr Bowen, Aled Thomas, Ffion Gaunt a Siona Evans am wneud yn arbennig o dda hefyd.

Yr wythnos ganlynol fuom yn ymweld â Wigs & Co yng Nghwmann. Cafwyd noson yn llawn sbort gyda nifer o'r aelodau yn trio Wigs o bob lliw a llun. Mae Kate yn darparu amrywiaeth eang o wigs i ddynion, menywod, plant a phobl ifanc sydd eisiau eu prynu ond yn bennaf oll i bobl sydd wedi dioddef o afiechydon difrifol.

Cafwyd Cawl blasus iawn ar nos Wener y 13eg o Fawrth yn nhafarn y Porthmyn, Ffarmers. Roedd hi'n noson gymdeithasol a hwylus iawn. Diolch i'r holl aelodau am eu cefnogaeth.

Gyda'r diwrnod gwaeth maes ar y gorwel fu nifer o aelodau'r clwb wrthi yn brysur yn paratoi arwydd i hyrwyddo Rali'r Sir ar gyfer cystadleuaeth 'Rali Promotional Sign'. Fu'r bechgyn yn cystadlu yng nghystadleuaeth stocmon y flwyddyn lawr yn y mart yn Nant-y-Ci ar y 4ydd o Ebrill. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i Rhydian Thomas ac Iestyn Russell am wneud yn arbennig o dda a chael eu dewis i fynd ymlaen i gynrychioli tîm y Sir ar lefel Cymru cyn diwedd y mis.

Ar y 3ydd o Ebrill cafwyd ymweliad arbennig i Fferm Cwmcerrig yng Ngorslas. Busnes teuluol yw fferm Cwmcerrig, adeiladwyd siop newydd sydd yn gwerthu nwyddau lleol sy'n cael eu cynhyrchu yn Sir Gaerfyrddin ar ôl blynyddoedd o werthu ffrwythau a llysiau i drigolion Sir Gâr. Yn wir mae'r busnes wedi tyfu yn aruthrol. Mae'r siop yn brawf o hynny. Mae bwyti â lle i gant o bobl yn y siop sydd yn cynnig amrywiaeth o fwydydd a carferi bum niwmod yr wythnos. Mae canran uchel o'r cig sydd yn cael ei werthu yn y siop wedi cael ei fagi gan y teulu ar eu fferm gyfagos. Roedd hi'n arbennig i weld y teulu yng nghyd dynnu a sefydlu busnes newydd mewn cyfnod economaidd ansefydlog. Yn wir mae gwerth i chi ymweld â'r siop hon.

Nos Wener y 10fed o Ebrill roedd dawns ethol llys genhades y Sir yn y 'White Heart' yn Llandeilo. Unwaith eto mae'n braf cael llongyfarch Louise Jones am gael ei hethol fel dirprwy llys genhades Sir Gaerfyrddin. Edrychwn ymlaen

at weld Louise yn cyflawni rhai o'r dyletswyddau newydd cyn diwedd y flwyddyn hon.

Ar nos Wener yr 17eg o Ebrill, cafwyd noson dda iawn lawr yng Ngholeg y Drinod yn defnyddio'r wal ddringo. Rwyf bron yn siŵr i bawb i gyrraedd top y wal erbyn diwedd y nos.

Carem gymryd y cyfle i ddiolch i bawb am eich cymorth a'ch cefnogaeth ac i'r rhai hynny sydd wedi bod yn ddigon caredig i adael i ni ymweld â nhw yn ystod y misoedd diwethaf ac yn wir mae'r aelodau wedi elwa o'r profiadau yma.

## Hanner Can Mlwyddiant C.F.F.I Cwmann

Fe fydd Clwb Ffermwyr Ieuanc Cwmann yn dathlu hanner can mlwyddiant ers ei sefydlu ar y 7fed o Ionawr 1960. Bwriad y Clwb yw dathlu drwy gydol y flwyddyn 2009-2010. Gobeithiwn gynnal digwyddiadau lu a chyffrous i ddenu aelodau presennol a chyn-aelodau yn ystod y flwyddyn. Mae cynlluniau ar gyfer y dathlu eisoes ar y gweill. Bydd cyfarfod ar gyfer yr Is-bwyllgorau ar Nos Sul 17eg o Fai am 8 o'r gloch yn Neuadd St Iago, Cwmann. Dewch yn llw i ymuno yn y bwrlwm ag i helpu gyda'r paratoi. Am wybodaeth bellach peidiwch ag oedi rhag cysylltu â'r cadeirydd Sioned Russell ar 01570 423396. Gwerthfawrogi pob cefnogaeth.

## Carnifal a Mabolgampau

Cynhelir Carnifal a Mabolgampau Cwmann ar Ddydd Llun y Banc 25ain o Fai i ddechrau am 1 o'r gloch. Bydd llawer o ddigwyddiadau hwylus. Croeso i bawb a dewch yn llw i gael hwyl a sbri.

## Diolch

Dymuna Maureen Evans Brynmaen ddiolch o galon am y llw cardiau galwadau ffon ar anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd arbennig.

## Ysbyty

Da deall fod Aubrey Morris, 16 Heol Hathren yn parhau i wella ar ôl ei lawdriniaeth, hefyd Alun Jones, Glanrhyd, Parcyrhos, ac hefyd bod Arthur Davies, Dolcoed yn well ar ôl treulio rhai diwrnodau yn yr ysbyty oherwydd anhwylder.

## Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Heini Thomas Tŷ Hathren sydd wedi pasio gradd 2 ar y piano.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a Glesni Thomas a'r teulu 1 Heol Hathren sydd newydd golli chwaer a modryb sef Carol Mason Crugybar, hefyd a Jenkin Mason a Glyn Mason o golli chwaer yng

nghyfriath.

## Clwb 170 – Enillwyr Ebrill

1. Mrs. M Evans, Bronallt, Cwmann, 2. Mrs C E Williams, Brynmeurydd, Parc y rhos, Cwmann, 3. Mr P Davies, Brynteifi, Cwmann, 4. Mr. Alun Jones, Glanrhyd, Parc y Rhos, Cwmann, 5. Mrs Gwenna Evans, Tŷ Newydd, Barley Mow, Llanbed, 6. Mrs. L. Edwards, Wernview, Cwmann, 7. Mr. Bernard Hardy, Cwmann, 8. Mrs Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann, 9. Mr Noel James, Emlyn Cottage, Cwmann, 10. Miss Sonia Northam, 28 Bro Einon, Llanybydder.

## Clwb 225 – Enillwyr Ebrill

1. Sheila Lewis, Bryn Awel, Cwmann, 2. Alwena Evans, Hafod Y Gân, Cwmann, 3. Mr & Mrs Wilson, Lock and Key, Cwmann, 4. Mary Davies, Llanwnnen, 5. Mr. Williams, Temple Bar, 6. Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, 7. Alwyn Roberts, Pengelli, Parc y Rhos, 8. Helena Gregson, Werna, Cwmann, 9. Helen Randell, Maes Hendre, Esgair daw, Cwmann, 10. Ronwen Thomas, Pantygwyn, Cellan.

## Diolch

Dymuna Evelyn Roberts, gynt o Awelford ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion ar blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn gant oed ym mis Mawrth.

## Babi newydd

Llongyfarchiadau i Dafydd a Kay Lewis, Pantmeinog ar enedigaeth merch fach.

# Pencarreg

## Diolch

Dymuna Mrs Ruth Jones, Pencarreg ddiolch o galon i bawb am y llw o gardiau a'r rhoddion hael a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar. Mwynhaodd ddathlu'r achlysur arbennig yn Weymouth gydag aelodau o'i theulu.



## Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Jasmine Davies, Glenview, Pencarreg a gafodd wobrau cyntaf ac ail am ganu unawd ac ail a thrydydd am lefaru 8-10 oed mewn eisteddfodau yn ystod gwyliau'r pasg.



# Llanllwni



Rhian Davies, CFfl Llanllwni yn aelod o dim siarad cyhoeddus adran iau buddugol Cymru.

## Ysgol Llanllwni

Aeth plant blwyddyn 1 a 2 i ymweld â'r hen ysgol yn amgueddfa Abergwili, fel rhan o'u gwaith hanes. Cawsant gyfle i weld a defnyddio'r arteffactau sef ysgrifennu ar y llechen a gwisgo'r Welsh Not. Roedd yn brofiad addysgiadol a diddorol.

Bu Betsan Jones yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mhontrhydfendigaid yn cystadlu yn y gystadleuaeth Llefaru i blwyddyn 5 a 6. Da iawn ti. Hefyd yn cystadlu yn y grwp Parti Unsain gydag Adran Llanfihangel oedd Sara, Jasmine a Sioned. Pob lwc i'r parti unsain a fydd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Bu blwyddyn 6 yn Ysgol Gyfun Llambed yn cael gwers gwyddoniaeth gan Miss Mattie Evans. Roeddent wedi mwynhau yn fawr.

Yn ein cyfarfodydd diweddaraf o'r Urdd cawsom noson o gemau parasiwt ar yr iard a noson o helfa trysor Pasg tu fewn.

Os hoffech ymuno â Chlwb Cefnogwyr yr ysgol, gan gael cyfle i ennill gwobrau yn fisol, cysylltwch ag Angharad Jones, Brynllwni neu'r ysgol. Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Ebrill: £10 – 190 – Owain Evans, 10 Bryndulais, £5 – 118 – Gamal Hamza, Cwmiar, £2.50 – 195 – Hilary Pendle, 10 Bro Nantlais, £2.50 – 174 – Alan & Mair Lewis, Aberbanc, £2.50 – 153 – Siroli Howells, Pantglas.

## Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Ieuan Williams, Awelfa, New Inn [Llaingwndwn gynt] sydd yn treulio cyfnod yn Ysbyty Glangwili. Gobeithio y bydd adref yn fuan ac yn ôl yn ei hwyliau arferol.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â Margaret, Tommy a'r teulu, Greenacres ar golli mam a mamgu annwyl yn ddiweddar sef Mrs Hannah Jane Jones o Demple Bar ond yn ddiweddar o Gartref Maesyfelin, Drefach.

Estynnir cydymdeimlad hefyd â Charles Evans, Garden House ar farwolaeth ei briod Eluned ar ôl

cyfnod yn Alltymynydd. Yr oedd wedi cyrraedd 94 oed ar y dydd cyn iddi farw – ar ôl treulio dros 30 mlynedd o fywyd hapus yng nghwmni ei gŵr yn Garden House. Bydd y teulu a'r cysylltiadau yn gweld ei heisiau yn fawr iawn.

## C.Ff.I. Llanllwni

Bu'r flwyddyn diwethaf yn flwyddyn brysur iawn i aelodau Clwb Ffermwyr ifanc Llanllwni. Codwyd swm teilwng o £2638.82 yn y Sioe a Threialon Cŵn Defaid gyda'r elw yn cael ei rannu yn deg rhwng Meddygfa Teifi a Nyrsys Marie Curie. Cyfranwyd cyfanswm casgliad y Cwrdd Diolchgarwch sef £51.10 i'r Papur Bro lleol sef CLONC a cyflwynwyd arian canu carolau o £645.10 i National Autistic Wales.

Cafwyd noson llwyddiannus yn Mason, Alltwalis pan gynhaliwyd noson tip-it ac yng ngofal y noson oedd Mr Eric Jones, Tirlan a Mr Idris Evans, Pantycoubol. Braff oedd gweld 12 o dîmau yn cystadlu a'r enillwyr oedd Aled, Ifor a Hefin.

Da iawn i Rhian Davies a wnaeth gystadlu yn Siarad Cyhoeddus Saesneg a Chymraeg y mis diwethaf ar ran Sir Gâr gan ennill y marciau uchaf fel cadeirydd yn y ddau.

Daeth Clybiau Fferwmyr Ifanc Sir Gâr at ei gilydd ar Ebrill 4ydd ym Mart Nantyci i gymryd rhan mewn cystadleuaeth Diwrnod Maes. Daeth llwyddiant i Glwb Llanllwni wrth iddynt gipio'r safle gyntaf yn y gystadleuaeth Arwydd i Hyrwyddo'r Rali.

# Pentrebach

## Gwellhad

Dymunir gwellhad llwyr a buan i Eric Jones, Pantteg ar ôl iddo derbyn triniaeth yn ysbyty Tywysog Phillip yn Llanelli yn ddiweddar.

## Diolch

Dymuna Eric Jones, Panteg ddiolch i bawb am y dymuniadau gorau, cardiau a galwadau ffôn tra fu yn yr ysbyty ac ers dychwelyd adref.

# Ffarmers



Barrie, Amanda a'r teulu yn cyflwyno sic i Staff Ysbyty Treforys.



Rhianon Thomas, Bryndolau a Sebastian Ling yng nghapel Bethel Cwm Pedol.

## Cyfarchion

Danfomwn ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Mrs May Roberts, Berthgylid sydd yn yr ysbyty yn derbyn gofal, ac yn yr un modd John Rhys Evans, Glasdir sydd yn treulio cyfnod yn yr ysbyty yng Nghaerdydd yn derbyn triniaeth law-feddygol. Pob hwyl i'r ddau ohonynt.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Marie Warner, Tegeirian ar ei phriodas i Keron Peregrine yng ngwesty'r Hudd Gwyn, Llandeilo ar yr 28ain o Fawrth. Maent yn mynd i fyw ym Mhumsaint. Un arall o ferched yr ardal i briodi yn ddiweddar yw Rhianon Thomas, Bryndolau a briododd a Sebastian Ling yng nghapel Bethel Cwm Pedol ar yr 11eg o Ebrill. Cynhaliwyd y neithior yn Y Ffigysbren, Dryslwyn, ac maent wedi ymgartrefi yn Nrefach Felindre.

## Neuadd Bro Fana

Daeth cynulleidfâ dda ynghyd â'r 18fed o Ebrill ar gyfer ymweliad Cwmni Cudyll Coch a'r Neuadd. Eleni, perfformiwyd dwy gomedi – 'Lolipop a Jeli Coch' gan John O Evans a 'Dirgelwch yr Awr Ginio' gan Sioned Huws - a phawb wedi mwynhau y ddau gynhyrchiad. Llywydd y noson oedd Mrs Rona Morgan, Maes y gâd, Derwen Fawr – un a fu yn athrawes a phrif athrawes yn Ffarmers am gyfnod o 32 o flynyddoedd, a braff oedd



Marie Warner a Keron Peregrine

cael y cyfle i'w chroesawi, ynghyd a'i phriod Gwyn, yn ôl i'r pentref. Cafwyd araith ddifyr ganddi yn sôn am rai o'r digwyddiadau a'r cymeriadau o'i chyfnod yn Ysgol Ffarmers, ac mae'n amlwg iddi fwynhau yr amser yn y gymdogaeth. Diolch i'r Llywydd a'r Cwmni Drama am noson hwylus.

## Rhedeg Hanner Marathon

Dymuna Barrie ac Amanda, Swyn y Nant ddiolch i bawb a wnaeth eu noddi i redeg Hanner Marathon Caerdydd ym mis Hydref y llynedd. Trwy eu ymdrechion, llwyddont i godi £800 tuag at Uned Losgiadau Ysbyty Treforys, lle cafodd Rhys y mab driniaeth pan yn faban.





# Llanbedr Pont Steffan

## Cymdeithas hanes

Daeth cynulliad da unwaith eto ynghyd i'r Hen Neuadd i gyfarfod mis Ebrill, a chroesawyd hwy'n gynnes gan Selwyn Walters, Cadeirydd. Nid oedd angen fawr o gyflwyniad i'r siaradwraig, sef Jen Cairns, gan ei bod yn aelod ffyddlon o'r Gymdeithas, ac wedi cynnal fwy nag un noson eisioes.

Testun y noson oedd "Ymchwilio i hanes tai", a chafwyd orig hynod o ddiddorol wrth i Jen ddangos sut mae mynd ati i ymchwilio i hanes eich tŷ, - neu unrhyw adeilad arall, gan esbonio lle mae dod o hyd i'r adnoddau priodol. Dangoswyd engrefftiau ganddi ar sgrîn, - o'r bwthyn syml i dai fwy sylweddol o lawer. Mae'n bwysig dechrau o'r presennol am yn ôl; holi hwn a'r llall am wybodaeth; y cyfrifiadau; edrych ar fapiau a hen bapurau newydd; beth sydd yn eich atig? Oes yna hen ddogfennau, - os oes, peidiwch a'u taflu! Medrwyh ymweld â'r Archifdy lleol, a'r Llyfrgell Genedlaethol, - ond mae'n bosib ymuno ag un o'r dosbarthiadau mae Jen Cairns yn eu cynnal yn y Brifysgol yn Llambled. Cewch lawer o hwyl yn ei chwmni wrth ymchwilio.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mai 19eg, 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan fydd aelod arall o'r Gymdeithas, Penny David yn sôn am le sy'n agos iawn at ei chalon, sef Aberglasni. Croeso cynnes i bawb.

## Y Cylch Cinio

Croesawyd yr awdures Caryl Lewis yn siaradwraig wâdd y Cylch Cinio yng nghyfarfod Mawrth a hynny'n briodol iawn ar Ddiwrnod y Llyfr. Daeth dros deugain i Ginio'r Gwagedd i fwynhau'r cinio blasus yng Nhwesty Glynhebog cyn gwrandao ar y Llywydd, y Bnr. Ieuan Roberts, yn cyflwyno Caryl Lewis. Cyfeiriodd yn ei gyflwyniad at ei blynyddoedd cynnar yn Aberaeron cyn symud yn ôl i'r fferm deuluol yn Nihewyd. Derbyniodd ei haddysg yn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Aberaeron, cyn mynd yn ei blaen i astudio ym Mhrifysgol Durham a Choleg Prifysgol Aberystwyth, gan raddio mewn Saesneg. Bu'n gweithio am gyfnod yng Nghanolfan Tŷ Newydd yn Llŷn ac yn y maes cysylltiadau cyhoeddus. Cyhoeddodd ei nofel gyntaf Dal hi! yn 2003, ac yn 2004 cyhoeddodd iawn boi? ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, aeth yn ei flaen i ennill Gwobr Tir na n-Og 2004. Cyhoeddwyd ei nofel Martha, Jac a Sianco yn Nhachwedd 2004, sydd bellach wedi ei drosi'n ffilm llwyddiannus, gan ennill iddi gwobr Llyfr y Flwyddyn yn 2005. Y mae'n ffermio ger Aberystwyth a phan nad yw'n ysgrifennu, yn mwynhau'r byd athletau, yn arbennig rhedeg.

Cawsom ddarlun ganddi o beth yw

bod yn awdur. Gellir ei hystyried yn hanesydd gan bod awdur yn cofnodi digwyddiadau a hanesion, ac hefyd yn ieithydd wrth ymdrin a geiriau yn ei gwahanol ffurf. Y mae'n diddanu ac yn creu adloniant i'r darlennydd, ac yn feirniad wrth i'r awdur drafod materion megis crefydd a natur cymdeithas yn y gwaith. Gellir ei ystyried yn seiciatrydd gan fod y gwaith yn medru bod yn astudiaeth o fobl a'u hymddygiad, ac hefyd yn arlunydd wrth i'r awdur greu darluniau sy'n bwydo dychymyg y darlennydd. Storiwr yw awdur yn y pen draw, a'r tradoddiad hwnnw yn bod ers cyn cof. Y mae dweud stori a chael eraill i wrando yn rhan annatod o fywyd, a'r straeon yn ddull o rannu a chadw atgofion. Y mae'r byd yn llawn enghreifftiau o storiwr megis ymhlith yr Indiaid Cochion yn America, y Cynfrodorion yn Awstralia a Chwedlau Aesop. Ceir enghreifftiau lu yng Nghymru megis dawn dweud y Celtiaid ac adroddwyr profiadol fel y bardd dylanwadol Dafydd ap Gwilym, y storiâu a geir mewn tafarndai, ac yn fwy diweddar y blogio cyfrifiadurol byd eang. Cyfeiriodd at sut y gall awdur ddylanwadu ar y ddarlennydd trwy gyflwyno safbwyntiau a bod datblygu'n awdur yn rhan o gyfansoddiad yr unigolyn. Eglurodd nad oes un llwybr i'w dilyn i fod yn awdur a bod datblygu gyrfa fel awdur yn mynd i wahaniaethu rhwng un awdur ar llall. Cyfeiriodd at y gwahanol waith y mae'n ei gynrychdu megis ysgrifennu ar gyfer cychronau, ysgrifennu addasiadau yn ogystal a chyhoeddiadau fel nofelau. Y mae'n ystyried trosi nofel yn ffilm fel yn achos Martha, Jac a Sianco yn ddull o gyflwyno'r stori trwy gyfrwng gwahanol, a'r broses o addasu'r nofel ar gyfer y ffilm yn golygu dechrau o'r dechrau. Bu'n gweithio ar sgript y ffilm am flwyddyn a bu sawl her anodd i'w goresgyn er mwyn cwblhau'r ffilm. Yr oedd cael lleoliad addas i gydfynd â chyfnod y stori yn anodd, a buont yn ffodus o gael fferm y Graig Ddu fel lleoliad ffilmio. Rhaid oedd ffilmio'r pedwar tymor a 'chreu'r' gwahanol dymhorau yn ystod 6 wythnos y cyfnod ffilmio. Daeth ei sgwrs i ben yn cyfeirio at pa mor unig y gall bywyd awdur fod, ond ei bod yn ei fwynhau a'i phosiectau diweddaraf fel ei straeon hirion a gyhoeddwyd yn Y Plu (Nadiolig 2008) a'i gwaith diweddaraf fydd yn trafod plentyn yn ymdopi gyda galar, yn atgyfnerthu hynny.

Diolchwyd yn hyfryd ar ran y Cylch Cinio gan y Bnr. Aeron Davies, wnaeth gyfeirio at ei gyfeillgarwch a'i theulu a'i atgofion amdani yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Aberaeron. Cyflwynodd gerdd o ddiolch iddi am noson



Agoriad swyddogol o'r green Clwb Bowlio Llambled gan y Maer Derek Wilson gyda Elfan James, Maer a'r Faeres, Brinley Mason, Ronnie Roberts, John Lloyd Jones, Morwen Thomas, Rita West, Henry Jones, Steve Entwistle.



Cyflwynodd Ieuan Roberts, Cadeirydd Cylch Cinio Llambled £300 i Rhys Bebb Jones, Trysorydd Apêl Llanbedr Pont Steffan Eisteddfod yr Urdd.

arbennig yn ei chwmni, yn ei ddull arbennig ei hun:

"Aeth Caryl ati weithio yn dawel heb ymffrostio mewn amser hir heb ennwyd llac daeth Martha, Jac a Sianco."

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y Cylch am y tymor ar 2il Ebrill yng ngwesty Glyn Hebog gyda'r llywydd Y Bnr Ieuan Roberts yn gweithredu hefyd fel y siaradwr gwadd. Wedi derbyn barn yr aelodau i gefnog'n ariannol rhai mudiadau lleol, cawsom ganddo gyda'i gasgliad gwych o sleidiau hanes ei daith fel aelod o grwp Taith Mencap Cymru 2008 i dde Patagonia o dan arweiniad Iolo Williams. Erbyn hyn, mae'n debyg codwyd dros £140,000 tuag at waith Mencap. Wedi cyrraedd tref El Calafate ar ol taith awyr o 36 awr o Brydain bu taith bws wedi hynny cyn cychwyn ar y daith gerdded a dringo. Roedd hon tua 39 milltir dros 5 diwrnod gan gynnwys gwersylla mewn pebyll yn un o ardaloedd mynyddig mwyaf anghysbell De Amerig, ardal Mynydd Fitzroy. O weld y sleidiau a chael disgrifiadau manwl amlygwyd i'r aelodau wybodaeth eang ein Llywydd fel naturiaethwr ac hefyd mewn daeareg a ddaeryddiaeth ffisegol. Gwelsom luniau o aelodau'r fintai ar eu hanturiaeth, tirluniau gyda nodweddion rhewlifol, rhewlnoedd, cymoedd, nifer o wahanol blanhigion mynyddig ac adar ac anifeiliaid gan gynnwys

olion Puma. Bu cyfle i'r grwp hefyd i ymweld ag ardal, gweld morfilod a morloi trwyn eliffant, Porth Madryn a chofeb y glanio, treulio cyfnod byr yng ngholeg Camwy, Y Gaiman, i gyflwyno anrhegion o Gymru ac ymweld a Buenos Aires. Ar y noson hynod o ddiddorol trosglwyddodd y Llywydd hefyd y cyfrifoldeb am y tymor newydd i'r Bnr John Davies (Bryn Castell) a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth. I gloi, yn briodol iawn, diolchodd y Llywydd newydd i'w ragflaenydd am ei gyfraniad ac i'r aelodau am eu cefnogaeth iddo yntau am y tymor i ddod. Swyddogion eraill – Is-Lwydd Cyng Hag Harris, Trysorydd Bnr Alan Morgan, ysgrifennydd siaradwyr Bnr Dan Griffiths, Ysgrifennydd Cyffredinol Bnr Tim Jones, Ysgrifennydd y Wasg Bnr Owen E Jones.

## Noddfa

Daeth cynulliad teilwng iawn ynghyd i Noddfa i oedfa gymun deuluol arbennig. Braf oedd gweld unigolion yn amrywio o 6 i 70 oed yn cymryd rhan ac yn gwneud hynny yn ddeallus a graenus. Cyhoeddwyd yr emynau gan Osian Jones, Tomos Jones, Aled Hughes, Lowri Elen, Rhian Davies ac Alun Williams. Darllenwyd rhan o'r gair gan John Elfyn a Sian Jones Rhandir a Tomos Rhys a chafwyd adroddiad gan Myfanwy Bryce.



# Llanbedr Pont Steffan

Gweddiwyd gan Llinos Jones. Ymunodd Dafydd Hughes ac Elan Jones gyda'r plant hynaf i ganu dwy gan swynol gyda phob un ohonynt yn amlwg wrth eu bodd yn cymryd rhan. Pleser hefyd oedd gwrandio ar ddatganiad hyfryd gan Lowri Elen ar y Delyn. Cyn mynd at i weinyddu'r cymun cyflwynodd ein Gweinidog y Parch Jill Tomos neges syml ond effeithiol iawn i'r plant mewn ffordd hynod ddiddorol. Bu pawb ohonynt yn ymateb yn frwdfrydig wrth geisio enwi ar eu cof yr eitemau ddangoswyd iddynt am ychydig funudau cyn eu cuddio dan liain. Soniodd y Gweinidog pa mor bwysig yw cofio, yn enwedig yn yr oedfa gymun, cofio am gariad Iesu. Wrth i'r oedolion ymgymryd o'r bara a'r gwin dosbarthwyd melysion siocled a sudd afal ymysg y plant gan sicrhau eu bod hwythau hefyd yn teimlo'n rhan o'r oedfa gymun ac yn cofio pwysierwydd yr ordinhad. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Llinos a chyfeiliwyd i'r plant gan Janet. Casglwyd gan Michael a Daniel Douglas, gwnaed y cyhoeddiadau gan John Morgan a thraddodwyd y fendith gan Derek Evans. Roedd hon yn oedfa fendigedig a erys yn y cof am amser hir. Wedyn ymunodd pawb yn y festri i gymdeithasu ac i fwynhau te ardderchog wedi ei baratoi gan chwiroydd Noddfa. Estynnir llongyfarchiadau calonnog i'r Dr. Eurfyl Davies, mab ieuengaf Jos a Beryl Davies ar ennill Doethuriaeth PhD mewn Peirianeg Cyfathrebu Digidol o Brifysgol Morgannwg. Estynnir dymuniadau gorau iddo fel Darlithydd ym Mhrifysgol Abertawe. Yr ydym yn ymhyfrydu yn ei lwyddiant gan fod Beryl ei fam yn aelod yn Noddfa. Daeth cynulliad lluosog ynghyd i Noddfa ar ddydd Sul 29ain Mawrth i gyd-addoli gyda'r plant a'r bobl ifanc mewn oedfa arbennig i groesawu'r gwanwyn, tymor y cyffro a'r bywyd newydd. Cawn gyfle i ddathlu Sul y Mamau yn ystod y Gwanwyn ac adroddwyd emyn hyfryd o waith Beryl Davies un o aelodau Noddfa yn diolch am gariad Mam gan Lowri Elen. Mae'r gwanwyn yn bwysig iawn yn hanes yr eglwys oherwydd dyma'r adeg y byddwn yn cofio aberth Iesu ar y groes a hefyd yn dathlu ei atgyfodiad. Cyflwynwyd neges y Pasg mewn ffordd syml ond effeithiol iawn mewn pennill a chan gan y plant a'r bobl ifanc. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Steffan Roberts a cyhoeddwyd yr emynau gan Tomos Jones, Osian Jones, Teon Rees ac Aled Hughes. Y llefarydd oedd Cerys Roberts, Beca Creamer, Tomos Rhys ac Aron Davies ac offrymwyd gweddi gan Sian Jones Rhandir. Hefyd cyfoethogwyd yr oedfa gan unawd Lowri Elen, adroddiadau Llinos

Jones a Sian Jones, Croesor ynghyd a chan Teon a Rhys. Fe'n swynwyd fel arfer gan gyfraniad y plant lleiaf a phob un ohonynt wrth eu bodd yn cymryd rhan ac yn rhoi o'u gorau glas. Bu Tomos, Osian, Dafydd Hughes, Lisa Evans, Elan Jones a Beca Roberts yn adrodd pennill yr un ac yn canu gyda'i gilydd a chafwyd datganiad swynol o'r gan 'Y Lili Wen' gan y merched. Diolchodd y Parch Jill Tomos yn gynnes i bawb am wneud eu gwaith gyda graen i Janet am ei pharatoadau manwl, i Llinos am ei chymorth hithau ac i Alwena am ei gwasanaeth wrth yr organ. Llongyfarchwyd nifer o'r plant a'r bobl ifanc ar eu llwyddiant mawr yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar a dymunwyd yn dda iddynt yn yr Wyl Genedlaethol yng Nghaerdydd ar ddiwedd Mai. Aeth pawb o'r oedfa gan deimlo mai da c ael bod yn bresennol i werthfawrogi cyfraniad clodwiw y plant a'r bobl ifanc.

## Merched y Wawr

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar Ebrill yr 20fed. Dechreuwyd drwy ganu can y mudiad gyda Margaret Jones yn cyfeilio. Rhoddodd Janet, ein llywydd, groeso cynnes i bawb ac yn arbennig i aelodau o gangen Llanybydder a ddaeth i ymuno a ni. Janet oedd y llywydd pan fu aelodau Llanybydder gyda ni o'r blaen 25ain o flynyddoedd yn ol. Alwen McConnochie oedd fod i arddangos coginio ar y noson arbennig yma ond yn anffodus methodd a dod. Felly, ar fyr rybudd bodlonodd Sian Jenkins, Castell i ddod i'r adwy. Hi yw un o'r rhai sy'n rheoli bwyty'r Coleg yn Llanbedr. Treuliwyd orig ddiddorol yn ei chwmmi tra bu'n coginio pryd blasus gyda phwdin haf yn dilyn. Talwyd diolch i Sian am fod mor barod i lanw bwlch gan Janet. Diolchodd Megan, Llywydd Llanybydder hefyd i Sian ac i aelodau Llanbedr am eu croeso. Yna gwahoddwyd pawb i gael lluniaeth ysgafn. Enillwyr y raffl oedd Olwen Lewis, Rhiannon Jones, Caroline Davies, Gwen Jones, Mair Jones, Catrin Thomas ac Eryl Jones. Ffarwelwyd ag aelodau Llanybydder cyn symud ymlaen i'r cyfarfod busnes. Cydymdeimlwyd a Glesni Thomas a oedd wedi colli ei chwaer. Llongyfarchwyd Dilwen ac Arthur Roderick ar ddathlu eu priodas aur. Darllenwyd y cofnodion a'u cael yn gywir. Dymunwyd yn dda i Pat ac Eryl sy'n cynrychioli'r Rhanbarth mewn dominos ym Machynlleth. Cynhelir yr Wyl Fai yn Aberaeron ar y 9fed o'r mis. Pawb sydd am fynd i roi eu henwau i Noleen. Aeth deuddeg o'r aelodau i ginio'r Llywydd Cenedlaethol yng Nghlydach ar Ebrill 4ydd a chawsant ddiwrnod da. Cystadleuaeth y mis nesaf yw 'Cerdyn Cyfarch'. Mae'r



Gerwyn Jones, Cadeirydd Cyn Ddiffoddwyr Tân yn cyflwyno £500 i Goronwy Evans a Cyril Davies Ymchwiler Cancer gyda Arthur Roderick, John Smith a Phyllis Smith.



Janet Llywydd Merched y Wawr, Llambed a Megan Llywydd cangen Llanybydder yn edmygu pwddin haf hyfryd Sian.

trefniadau ar gyfer y wibdaith ym mis Mehefin yn mynd ymlaen. Bydd ein Cymanfa Ganu ar yr 28ain o Fis Fehefin yn Noddfa o dan arweiniad Rhiannon Lewis a'r artistiaid fydd Elin Williams a Caryl Lewis. Bydd y Gymanfa Ganu yn cael ei recordio. Rhennir yr elw rhwng clefyd 'Motor Neurone', Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 a Sioe Frenhinol Cymru. Pris y rhaglen fydd £4.00, plant am ddim. Bydd Janet a Pat yn ein cynrychioli yn seremoni lansio offer am cadw'n heini ym mharc yr Orsedd ar yr 28ain o Ebrill. Penderfynwyd bod pob aelod yn cyfrannu £1 yr un tuag at Ofal Cancr y Fron. Bu Dilys ac Aerwen ym mhwyllgor Celf a Chrefft y rhanbarth. Soniwyd bod gwibdaith wedi'i threfnu ar y 26ain o Fedi Abergavenny ganddynt. Diolchodd Janet i aelodau'r pwyllgor am roi'r bwyd i Eric a Mair am baratoi'r ystafell ac i bawb arall a gyfrannodd at y noson. Enillydd y raffl fisol oedd Gwen Jones. Bydd cyfarfod blynyddol y gangen mis nesaf, Mai 11eg pryd y disgwylir cwmni Mrs Esyllt Jones ein Llywydd Cenedlaethol. Bydd Dilys Godfrey hefyd yn arddangos ei gwaith llaw.

## Gyrfa Chwist Cartref Hafan Deg

Ar nos Fercher y 1af o Fis Ebrill cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr oedd fel a ganlyn – Dynion 1af Mrs Peggy Davies, Bro Henllys, Felinfach, 2ail Mrs Gwen Davies, Llanwnnen, Cydradd 3ydd Mr Peter Jones, Llambed, Mrs Maggie Vaughan, Bro Henllys, Felinfach a Mrs Mary Davies, Cwmsychpant. Merched Mrs Catrina Davies, Aberaeron, 2ail Mrs Margaret Jones, Pentrebach, 3ydd Mrs Annie Thomas, Nant Sebon, Llambed. Scor isaf dynion Mr Ifan John Jones, Bro Henllys, Felinfach Merched Mrs Ray Thomas, Stryd Newydd, Llambed. Bwrw allan Enillwyr Mrs Nanna Davies, Stryd Newydd Llambed a Mr Harry Williams, Ystrad Aeron, ail Mrs Mary Jones, Stryd y Bont, Llambed a Mrs Margaret Jones Pentre Bach.

Ar nos Fercher y 15fed o Ebrill cynhaliwyd Gyrfa Chwist arall yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans yn arwain. Enillwyr oedd fel a ganlyn – Dynion 1af Mrs Ray Jenkins, Llanybydder, 2ail Mrs Gwendoline Jones, Llanybydder, 3ydd Mr Peter Jones, Llambed. Merched 1af Mrs June Mason, Llambed, 2ail Mrs Dilwen Roderick, Llambed 3ydd Mrs Mari Thomas, Talgarreg. Bwrw allan – enillwyr Mrs Gwendoline Jones a Mrs June Mason, ail Mrs Mary Thomas a Mrs Ray Jenkins. Bydd gyrfa oedd Mis Mai ar nos Fercher 13eg a 27ain. Croeso cynnes i bawb.



# Llanbedr Pont Steffan

golwg360



Bethan Phillips yn cael ei derbyn yn Gymrawd o Brifysgol Dewi Sant, Llambled gan y Dr Brinley Jones, a'i chyflwyno gan y Dr Christine Jones.



Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Clwb 41 Llanbed yn ddiweddar yng Ngwesty Glynhegog, pryd yr etholwyd Nigel Davies yn Gadeirydd am y flwyddyn 2009/10. Gwelir yn y llun Rhys Bebb Jones yn trosglwyddo'r awenau i Nigel Davies.

## Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf a'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

## Diolch

Mae Dilwen ac Arthur Roderick am ddiolch yn fawr i berthnasau a ffrindiau am y llun cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur. Diolch o galon i chi gyd.

## Aelwyd yr Urdd

Daeth criw o'r aelodau ynghyd i'r Ganolfan Hamdden nos Fawrth 21 Ebrill. Cafwyd noson ddifys iawn yn chwarae tenis a phel-droed gyda Jason a Geinor Medi yn cadw trefn a'r merched a'r bechgyn yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Diolchodd Jac a Guto i Jason a Geinor Medi am noson hwylus iawn ac i Mareth a Janet am eu cymorth hwythau.

## Annibynnwyr


Cynhelir Cymanfa Ganu Annibynnwyr Llambled a'r cylch yn Soar nos Sul Mai 10fed dan arweiniad Berwyn Jenkins o Gaerfyrddin. Bydd oedfa'r plant a'r oedolion am 5 o'r gloch. Llywydd y Gymanfa eleni yw Aerwen Griffiths, Capel Mair, Llanfair a'r organyddes yw Eurwen Davies, Llambled. Estynnir croeso cynnes i bawb.

## Bedyddwyr

Ar Sul Mai 17 cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled yng Nghaersalem Parcyrrhos – y plant am 2.30 a'r oedolion am 6 o'r gloch. Yr arweinydd eleni yw

Elonwy Davies o Lanybydder sydd yn wyneb gyfarwydd i bawb ohonom. Darperir lluniaeth rhwng yr oedfaon yng Nghanolfan Cwmann. Croeso cynnes i bawb.

## Diolch



Dymna Evelyn Roberts gynt o Awelfor ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn gant oed ym mis Mawrth.

# Cellan

## 18 oed

Llongyfarchiadau mawr i Caryl Thomas, Bryncynon ar ei phen blwydd yn ddeunaw oed ar y 23ain o Ebrill. Pob hwyl i ti Caryl yn y dyfodol.

## Bowlio

Pob lwc i Anwen Butten ym Mhencampwriaeth Fowlio yn Ne Affrig.

## Tri ffigwr sy'n cyfri ... 360 ... y byd yn grwn: Gwasanaeth newydd Golwg ar y we

Fe fydd yna gyfle i bapurau bro fod yn rhan o wasanaeth newydd Golwg ar y We. Mai 15 – dyna'r dyddiad lansio ar ei gyfer a'i enw yw Golwg 360 ... i ddangos ei fod yn edrych ar y byd o bob ongl.

O'r dechrau, fe fydd cyfle i bawb a phopeth hawlio lle ar y gwasanaeth – gan gynnwys papurau bro.

Ac mae Golwg eisiau sylwadau gan bawb hefyd, gan mai cyfnod prawf cyhoeddus sy'n dechrau ar 15 Mai.

Fe fydd Golwg 360 yn rhoi gwasanaeth newyddion trwy'r dydd bob dydd trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â phob math o nodweddion difyr eraill.

## Y cylch yn gyflawn...

Mae'r enw golwg360 - yn dangos ei fod yn fwy na gwasanaeth newyddion. Os yw gwasanaeth am fod yn llwyddiant mewn gwirionedd, mae angen i bob math o gyrff, cwmnïau a mudiadau fod yn rhan ohono a chyfrannu ato. Fe fyddai'n wych gweld eich ardal chi yn cael ei chynrychioli'n gryf.

Bydd lle i bob math o gymdeithasau, clybiau a mudiadau gymryd eu safle bach eu hunain ar y gwasanaeth – tudalen neu ddwy i ddweud wrth bawb pwy ydyn nhw ac i roi eu newyddion diwedddara'. Fe allai ysgol wneud, neu glwb chwaraeon neu, wrth gwrs, bapur bro. A'r cyfan yn hawdd a didrfferth.

Mae yna ffyrdd eraill o gyfrannu hefyd. Ym myd chwaraeon, er enghraifft, os oes rhywun yn sgorio gôl dda neu gais gwerth ei weld i dîm lleol - a bod rhywun wedi tynnu llun neu wneud fideo o hynny - fe allech chi ei anfon i mewn i'w roi ar y gwasanaeth. Felly, chi swyddogion a chefnogwyr y clybiau pêl-droed a rygbi lleol, cofiwch fynd â'ch camerâu gyda chi pan fyddwch chi'n mynd i wylïo gemau.

A does dim rhaid cyfyngu pethau i bêl-droed a rygbi, wrth gwrs. Beth am gael safle bach i glwb ralio, clwb cerdded neu hyd yn oed i glwb jiwdo?

A thu hwnt i chwaraeon, bydd cyfle i fudiadau eraill hefyd – o Ferched y Wawr i gorau a chapeli ac eglwysi. A beth am luniau a chanlyniadau o eisteddfod leol?

Beth am fudiad fel y Ffermwyr Ifanc wedyn? Mae'n siŵr bod digonedd o luniau o bob math o ddigwyddiadau gan aelodau'r clybiau (ac mae rhai yn ffit i'w dangos i'r cyhoedd hefyd!). Ac, i grŵp pop ifanc sydd am gael llwyfan i'w gwaith, dyma le gwych i lwytho caneuon neu fideos fel bod modd i eraill i'w gweld a'u clywed.

Fydd pob peth ddim yn digwydd reit o'r dechrau, ond mae'r cyfle yno, ac fe fydden ni'n hoffi clywed gan unrhyw un sydd â syniad.

## Gwasanaeth unigryw...

Un fantais fawr i'r gwasanaeth newydd yw ei fod am ddim. Fydd dim rhaid i neb dalu am ddarllen yr holl ddeunydd na gwylio clipiau o fideos ac ati.

Does yna ddim byd yn union yr un peth – yn cynnig gwasanaeth newyddion proffesiynol, adloniant a'r elfennau cymunedol a chymdeithasol yma.

Os bydd pawb yn cymryd y cyfle sydd ar gael i gymryd rhan a chyfrannu, fe fydd y gwasanaeth newydd yma'n torri tir hollol newydd, nid dim ond yng Nghymru ond, hyd y gwyyddon ni, yng ngweddill gwledydd Prydain hefyd.

Cofiwch felly am y tri ffigwr yna eto - golwg360 – y byd i gyd yn grwn.

www.golwg360.com

# Cynllun Tocyn Tacs CAVO

## Annwyl Olygydd

Fel cydlynnydd Cynllun Tocyn Tacs CAVO, rwy'n derbyn nifer o alwadau ynghylch beth sy'n digwydd i'r Cynllun eleni. Aethom i Gaerdydd y bwysu ar y Cynulliad i ariannu'r Cynllun eto eleni, a chawsom gadarnhad o hyn ar ddechrau mis Mawrth.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barod i ariannu'r Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach, ond maent yn gofyn am rai newidiadau i'r ffordd rydym yn gweinyddu'r Cynllun ac i'r meini prawf o bobl sy'n gymwys. Rydym wrthi'n brysur yn gwneud y newidiadau yma, ond fe wneith cymeryd tua chwe wythnos i baratoi a chadarnhau'r newidiadau. Unwaith mae'r gwaith hyn wedi ei wneud, byddwn yn danfon rhagor o wybodaeth a'r pecynnau cais i bawb dderbyniodd tocynnau tacs llynedd ac i bobl sydd wedi gofyn am becyn cais eleni.

Bydd pawb gafodd docynnau tacs llynedd yn derbyn pecyn cais pan fydd yn barod. Os na chawsoch docynnau tacs llynedd, neu dyma'r tro cyntaf i chi wneud cais am docynnau tacs, yna cysylltwch â'r swyddfa ar 0845 408 0140, neu e-bostiwch enid@cavo.org.uk, neu danfonwch lythyr i CAVO CT, Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB. Bydd pob cais yn cael ei werthuso yn ôl y meini prawf ac anghenion yr ymgeisydd.

Yr eiddoch yn gywir E Heneghan (Cydlynnydd y Cynllun)



# Llanwnnen

## Diolch

Dymuna Mary Davies, Pant yr Onnen, Blaencwrt, ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn a'r holl ddymuniadau da dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

## Priodas Berl

Dathlodd Haydn a Mary Richards, Lowtre eu Priodas Berl ar ddechrau mis Ebrill. Dymuniadau gorau i chwi am flynyddoedd eto.

## Ar Wellhad

Gobeithio fod Ceinwen Roach, 5 Bro Llan yn well ar ôl iddi dderbyn llaw driniaeth ar ei llaw yn ystod y mis.

Hefyd, dymunwn wellhad buan i Mrs Morina Davies, Caron, Bro Grannell sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Bangor.

Gwellhad buan i Mrs Ann Jones, 3 Bro Grannell sydd wedi bod yn Ysbyty Llanelli yn ystod y mis, ond wedi dod adref erbyn hyn.

Hyfryd, hefyd clywed bod Mrs Eva Davies, Or-nant wedi dod nôl am gyfnod i Gartref Hafan Deg, Llambd ac yn gwella ar ôl bod yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin.

Dymuniadau gorau i chi gyd.

## Clwb 100 Ieuencid Llanwnnen

1af Rhif 59	Eirwyn Thomas
2il Rhif 13	Bill Cooper
3ydd Rhif 67	Kevin Lewis
4ydd Rhif 12	Vivian Bowen

## Cymanfa Cerddorol Undodaidd Ceredigion

Tro Capel y Groes, Llanwnnen oedd i gynnal Gymanfa Ganu yr Undodiaid ar ddydd Sul, Ebrill 26ain. Gwelwyd y capel dan ei sang yn ystod sesiwn y prynhawn a chynulleidfia teilwng yn yr hwyr. Arweinydd y dydd oedd Mr Jonathan Morgan, Tymbl Uchaf a'r organydd oedd Miss J. Eirian Jones, Cwmann. Llywydd y prynhawn oedd Mrs Carol Rees, Capel Bwlchfadfa gyda Miss Carys Griffiths, Capel y Bryn yn lywydd yr hwyr. Cafwyd areithiau ffres a bywiog gan y ddwy sydd. Mae gwreiddiau'r ddwy ohonynt yn nwf mewn Undodiaeth a'u teuluoedd, yn ogystal a nhw eich dwy, wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i'r enwad yng Ngheredigion.. Bu gwragedd yr enwad yn paratoi lluniaeth ysgafn yn y festri rhwng y ddau gyfarfod. Trefnydd y dydd oedd Parch Cen Llwyd a diolchodd i bawb am wneud y diwrnod yn un llwyrchus dros ben, ac edrychwn ymlaen yn awr at ddiwrnod yr un mor llwyddiannus yn 2010 a fydd yn cael ei gynnal yng Nghapel Llwynrhydowen, Pontsian.

## Ysgol Llanwnnen

Ar ddydd Mawrth olaf y tymor bu'r tîm cwis Llyfrau yn cymryd rhan yn yr ail rownd. Atebwyd

y cwestiynau yn dda ganddynt,. Derbybyniwyd canlyniad y Cwis Llyfrau yn dilyn y gwyliau a braf yw cael cyhoeddi bod tim yr ysgol wedi dod yn gydradd 3ydd am yr ail flwyddyn o'r bron. Aelodau'r tim oedd Ffion Jenkins, Cerian Jenkins, Twm Ebbsworth a Ryan Holmes. Da iawn chi blant a diolch i Miss Davies am baratoi'r cwis.

Bore dydd Mercher, Ebrill 1af aeth yr adran Iau i fyny i Ganolfan y Barcud yn Nhregaron ynghyd â Ysgol Cribyn. Gwisgodd y plant yng ngwisg Oes Fictoria i ddod i'r ysgol oherwydd roeddent yn cael gwers fel yr oedd hi yn yr oes hynny gan Mr & Mrs Morse. Gwelwyd tipyn o wahaniaeth i fel y mae pethau nawr!!

Bu rai o blant yr ysgol yn cystadlu yn adran y cyfyngedig yn Eisteddfod Capel y Groes yn ystod y Pasg. Cafodd rai o blant llwyddiant sef: Canu o dan 8 oed = Heledd Jenkins, 4ydd.

Adrodd o dan 8 oed = Heledd Jenkins 2il. Canu 8 oed tan oed ysgol gynradd = Ellen Jones 2il. Adrodd 8 oed tan oed ysgol gynradd = Ellen Jones, 2il a Cerian Jenkins 3ydd. Parti Unsain 1af a'r Parti Llefaru 1af. Da iawn chi blant am ddod i gystadlu yng nghanol gwyliau Pasg.

Croeso cynnes i Emily Roach sydd wedi dechrau gennym ym mlwyddyn Meithrin, a brawd a chwaer sydd wedi symud i'r ardal Olivia Curthoys i Flwyddyn 3 a Beau i flwyddyn 1. Hefyd croesawn Annwen Roberts sydd gennym o Ysgol Gyfun Llambd yn gwneud cwrs Diploma mewn gofal pplant a Sarah o Goleg Ceredigion Aberystwyth sy'n astudio CACHE gofal plant. Gobeithio y byddwch i gyd yn hapus yn ein plith.

Mae disgyblion blwyddyn 5 yn derbyn gwersi beicio gan Ryan Jones ar hyn o bryd. Cofiwch gymryd gofal ar yr hewl fawr!

Cerddodd disgyblion yr adran Iau, Mr Evans a Miss Davies o Lambd i Lanwnnen gyda Ieuan Roberts a Phillip Lodwick fel ran o ddathliadau Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010. Braf oedd cerdded yn hamddenol ar hyd llwybr cyhoeddus i Ddolaugwyrdion ac yna ar y brif ffordd i Lanwnnen ac yna ymunodd y disgyblion lleiaf a ni ar y bont yn Llanwnnen. Yn rhan o'r Gŵyl Cyhoeddi hefyd, cynhaliodd yr Urdd Jambori mawr yn Llangrannog. Aeth holl ddisgyblion yr ysgol lawr yno a phawb yn mwynhau canu gyda Gwenda Owen yn arwain.

Y tymor yma mae dosbarth Mrs Llwyd yn cael gwersi nofio. Jiwi, oedd yna gyffro mawr ar y prynhawn roeddent yn mynd i nofio -.rhaf yn mynd i'r dŵr am y tro cyntaf! Bu'r deintydd ar ei ymweliad yn yr ysgol am brynawn yn dweud wrthym sut oedd edrych ar ôl ein dannedd.



Gareth, Hanuman a Twm wrthi yn brysur yn ymarfer eu llaw ysgrifen yng Nghanolfan y Barcud.



Tîm Cwis Llyfrau Ysgol Llanwnnen.

## Sefydliad y Merched

Mrs Yvonne Davies oedd ein gwraig wâdd yng nghyfarfod mis Ebrill ac estynodd ein llywydd Mrs Gwen Davies groeso cynnes iawn iddi. Hanes Stryd Fawr, Llambd oedd tesun Yvonne ac roedd yn amlwg bod ganddi ddiddordeb mawr yn hanes y dref ac wedi gwneud llawer iawn o ymchwil i'w phwnc. Diddorol iawn oedd clywed fel roedd y busnesau wedi newid yn

ystod y ganrif a hanner ddiwethaf. Diolchodd Mrs Avril Jones i Yvonne am noswaith addysgiadol iawn.

Pleser hefyd oedd cael croesawu Gwenann, wyres ein llywydd yn y cyfarfod, gobeithio ei bod wedi mwynhau a 'falle bydd yn ymuno â'r mudiad ryw ddiwrnod.

Cafwyd adroddiad i Gyfarfod Gwyn Onnen yn Llanfair gan Miss Elsa Thomas ac enillwyd y cystadleuaeth y mis gan Avril Jones.

## Gwefannau Cymunedol Lleol:

Ardal Cymunedol Llangybi: [www.llangybi.org.uk](http://www.llangybi.org.uk)

Capel Bethel Parcyrrhos: [www.bethel.btik.com](http://www.bethel.btik.com)

Clwb Cledlyn: [www.clwb-cledlyn.org.uk](http://www.clwb-cledlyn.org.uk)

Clwb Moduro Llambd a'r ardal: [www.ldmc.org.uk](http://www.ldmc.org.uk)

Clwb Rygbi Llambd: [www.clwbrygbillambd.org](http://www.clwbrygbillambd.org)

Côr Cardi-Gân: [www.corcardi-gan.com](http://www.corcardi-gan.com)

Côr Meibion Cwmann: [www.corcwmann.btik.com](http://www.corcwmann.btik.com)

Côr Merched Côrisma: [www.corisma.btik.com](http://www.corisma.btik.com)

Ffarmers: [www.ffmpegers.org](http://www.ffmpegers.org)

Llanllwni: [www.llanllwni.co.uk](http://www.llanllwni.co.uk)

Llanybydder: [www.llanybydder.org.uk](http://www.llanybydder.org.uk)

Menter Llambd: [www.lampeter.org](http://www.lampeter.org)

Papur Bro Clonc: [www.clonc.co.uk](http://www.clonc.co.uk)

Plwyf Llanwenog: [www.plwyflanwenog.com](http://www.plwyflanwenog.com)

Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan: [www.llambd.ac.uk](http://www.llambd.ac.uk)

Y Ford Gron Llambd: [www.lampeterroundtable.org.uk](http://www.lampeterroundtable.org.uk)

Ysgol Carreg Hirfaen: [www.ysgolccc.org.uk/hirfaen](http://www.ysgolccc.org.uk/hirfaen)

Ysgol Cwrtnewydd: [www.cwrtnewydd.ceredigion.sch.uk](http://www.cwrtnewydd.ceredigion.sch.uk)

Ysgol Ffynnonbedr: [www.fffynnonbedr.ceredigion.sch.uk](http://www.fffynnonbedr.ceredigion.sch.uk)

Ysgol Llanwenog: [www.ysgol-llanwenog.com](http://www.ysgol-llanwenog.com)

Ysgol y Dderi: [www.ydderi.ceredigion.sch.uk](http://www.ydderi.ceredigion.sch.uk)

Os am ychwanegu at y rhestr, anfonwch ddolen at [cadeirydd@clonc.co.uk](mailto:cadeirydd@clonc.co.uk)



# Cadwyn Cyfrinachau



**Enw: Dafydd Jones**

**Oed:** 25

**Pentref:** Llanfair Clydogau

**Gwaith:** Ffermwr

**Partner:** Laura Davies

**Teulu:** Mam, Dad, Mareid, Nia,  
Guto a Mam-gu

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**

Rasio rownd y fferm fel idiot ar fy motor beic bach (Dim lot callach nawr).

**Yr eiliad o'r embaras mwyaf.**

Rhoi penalti bant yn y funud ola yn rownd gynderfynol Cwpan Cymru rhwng Llanymddyfri a Llanelli a hynny'n fyw ar y bocs.

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.**

I drin pawb fel y bydden i eisiau cael fy nhrin fy hunain.

**Y CD cyntaf a brynast di erioed?**

Meat Loaf.

**Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**

Ffermwr.

**Beth yw dy lisenw?**

Dai Lock

**I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?**

Joey o Friends – Joio Bwyd.

**Pwy yw dy arwyr?**

Alan Thomas.

**Y peth gorau am yr ardal hon?**

Pawb yn helpu gilydd.

**Y peth gwaethaf am yr ardal hon?**

Ffeindio taesi ar nos Sadwrn.

**Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?**

Pobl sy'n meddwl eu bod yn deall y cwbl ond yn deall dim yn y diwedd.

**Beth sy'n codi ofn arnat?**

Dreifo Mam, Mareid a Nia.



**Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?**

Taliad Cynta ar Barlwr Godro Robotig.

**Pryd chwydaist ti ddiwethaf?**

Tair wythnos yn ôl! Ges i ryw byg!

**Am beth wyt ti'n breuddwydio?**

Dim gorfod codi i odro yn y bore.

**Unrhyw ofergoelion?**

Peidio sefyll ar ben ysgol pan ma' rhywun yn cerdded tano.

**Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?**

Llanymddyfri yn ennill Cwpan Swalec.

**Ac yn bersonol?**

Helpu tîm Llambled i gyrraedd rownd derfynol yn Stadiwm y Mileniwm.

**Wyt ti'n difaru rhywbeth?**

Peidio cymeryd rygbi mwy o ddifri yn yr ysgol.

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?**

Cryf - gweithio ar y fferm.

Pert – *now that would be telling!!*

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?**

Gweithio'n galed a chwarae rygbi.

**Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?**

Peidio ag yfed 'da Slic.

**Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.**

Diwrnod canlyniadau TGAU; na pryd sylweddolais i taw gweithio yn y baw byddwn i.

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**

Bolgi, Penderfynol, Siaradus.

**Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?**

Twpsyn sy'n ffaelu stopio siarad.

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**

Golf GT Tdi.

**Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?**

Chinese.

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?**  
Unrhyw sydd yn gallu coginio!

**Beth wyt ti'n ei ddarllen?**

Unrhyw bapur chwaraeon a *Farmers Weekly*.

**Beth yw dy hoff arogl?**

Cinio 'Dolig.

**Sut wyt ti'n ymlacio?**

Ar y sofffa o flaen y teledu.

**Hoff wefan?**

You Tube a Facebook.

**Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?**

Gareth Jenkins a Slic.

**Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?**

Pen-glin a Phigwrn. A chyn bod neb yn gweud... cluste!

**Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?**

Chwibanu.

**Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?**

Gwyllo Chris Thomas yn chwarae Rygbi - ma gobaith i unrhyw un!!!!

**Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?**

Quad Bike – ar goll hebddo!

**Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?**

Rhieni

**Y gwyliau gorau?**

Seland Newydd – yr unig un!

**Arferion gwael?**

Peidio hongian dillad.

**Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?**

Bwyta 6 Weetabix, bowlen o Cornflakes, dwy dafell o facwn ac wy i frecwast bob bore!

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

**Manon Richards**, Alltlyblaca

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw \_\_\_\_\_  
Cyfeiriad \_\_\_\_\_  
Cod post \_\_\_\_\_  
Rhif Ffôn \_\_\_\_\_

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET  
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc  
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

3	6			4	9			2
								6
		1		3	4			
6		7		3				
8			6		4			1
				9		7		4
		4	9			8		
2								
5			4	8			7	9

### Atebion Swdocw mis Ebrill

Llongyfarchiadau i **T Evans**, Efail Fach, Llanfair Clydogau a diolch i baw arall am gystadlu: Iona Warmington, Llandaf, Caerdydd, Graham Uridge, Coedparc, Llambled, Glenys Davies, Gellir Aur, Llanybydder, Jean Griffiths, Fronddu, Cwrtnewydd, Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Augusta Davies, Kings Mead, Llambled, Eirlys Humphreys, Cwmcoy, Blaenpennal, Avril Williams, Y Fedw, Cwmann, Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder, Lynwen Davies, Gas-dir, Llanybydder, Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Val Thomas, Glasfryn, Maesycrugiau, Euronwy Doughty, Highlands, Llanybydder, Lis Williams, Bronallt, Llangadog a Catrin James, Castelldu, Llanwnnen.

1	9	3	7	5	8	6	4	2
6	4	8	2	3	9	5	1	7
2	5	7	4	1	6	8	3	9
7	8	4	9	6	2	3	5	1
3	6	2	1	7	5	9	8	4
9	1	5	3	8	4	7	2	6
4	7	6	5	2	3	1	9	8
5	2	1	8	9	7	4	6	3
8	3	9	6	4	1	2	7	5





Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Dyma'r canlyniadau:- Unawd Merched Bl 7-9 Gwawr Hatcher 2ail, Unawd Bechgyn Bl 7-9 Aron Dafydd 2ail, Unawd Merched Bl 10-19oed Elliw Mair 2ail, Cyflwyno Alaw Werin Bl 7,8,9 Lowri Jones 2ail, Cyflwyno Alaw Werin Bl 10-19oed Elin Jones 2ail, Unawd Llinynnol Bl 7-9 Llion Thomas 2ail, Unawd Piano Bl 7-9 Gwawr Hatcher 3ydd, Unawd Telyn Bl 7-9 Lowri Jones 2ail, Unawd Cerdd Dant Bl 10-19oed Elliw Mair 1af, Llefaru Unigol Bl 7-9 Lowri Jones 1af, Llefaru Unigol Bl 10-19oed Hedydd Davies 1af, Monolog Bl 10-19 oed Elliw Mair 2ail, Dawns Disgo Unigol Bl 7,8,9 Polly Lagdon 3ydd, Parti Merched Bl 7,8,9 3ydd, Parti Bechgyn Bl 7,8,9 1af, Côr S.A. Bl 7,8,9 1af, Côr Bechgyn T.B. Bl 13 ac iau 3ydd, Ensemble Lleisiol Bl 13 ac iau 1af, Grŵp Llefaru Bl 7,8,9 2ail, Ymgom Bl 7,8,9 3ydd, Dawns Cyfrwng Cymysg Bl 7-19 oed 1af, Grŵp Dawnsio Disgo Bl 10-19 oed 3ydd.

Pob lwc i'r rhai fydd nawr yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd mis nesaf.

Am ganol nos ar nos Fercher, 18 Chwefror cyfarfu criw o ddisgyblion Blwyddyn 12 tu allan i'r Ysgol Uwchradd yn llawn cynnwrf a chleber ac yn fagiau i gyd yn barod i fynd ar daith gyfnewid i Kalix, yn Sweden er mwyn blasu diwylliant a ffyrdd gwahanol y Swediaid o fyw.

Ar y bore cynta yno aethom gyda'n lletywyr i'r ysgol a dyna brofiad diddorol, a dweud y lleiaf, oedd cael gwers hanes trwy gyfrwng y Swedeg! Yn y prynhawn wedyn, cawsom wahoddiad i Neuadd y Dref Kalix i gyfarfod ag un o wleidyddion y wlad tra'r noson honno buom yn cymdeithasu gyda'n teuluoedd cyfaill yn yr ysgol. Bydd canu 'Hen Wlad fy Nhadau' yn llawn balchder ar ddiwedd y noson yn aros yn y côf am amser hir.

Ddydd Sadwrn croeson y ffin i'r Ffindir ac ymweld ag Amgueddfa'r Arctig, a oedd yn werth ei weld. Cyfarfyddom hefyd â Siôn Corn yn ei groto twristaidd a thynnwyd llun ohonom yng nghwmni'r hen ffefryn.

Dydd Sul treulion ddiwrnod yn yr awyr agored hyd at ein pengliniau mewn eira yn slejo, yn gyrru 'snowmobiles' ac yn cael barbicw o flaen tanllwyth o dân agored. Dyma'r unig ddiwrnod y bu'n bwrw eira o ddifrif tra buom yn Sweden er bod pobman yn wyn. Nid oedd y tymheredd 'chwaith yn oer ddychrynlyd - yr unig amser yr oeddwn wedi teimlo'r oerfel oedd wrth gyrraedd Kalix yn y lle cyntaf a'r tymheredd yn -17°C.

Brynhawn Llun ymwelon â'r 'Gwesty Iâ' ac roedd hwn wir yn agoriad llygad. Yr oedd popeth yn y gwesty wedi'i wneud o iâ - y lloriau, y welydd a hyd yn oed y gwelyau a'r siandeliers a oedd â golau trydan ynddynt. Diddorol oedd clywed fod y gwesty'n cael ei adeiladu'n flynyddol mewn tair wythnos ag iâ o'r afon gerllaw a phan oedd y tywydd yn poethi byddai'n toddi a'r dŵr yn llifo yn ôl i'r afon.

Diwrnod poenus i'm pen-ôl oedd dydd Mawrth! Buom yn eira-fyrddio ac yn sgïo. Cafodd nifer o'm ffrindiau hwyl arni ond roeddwn i fwy yn fy hyd ar lawr nag ar fy nhraed!

Treuliasom ein diwrnod olaf yn Kalix yn yr ysgol a buom hefyd yn bowlio cyn ffarwelio â'n lletywyr a hedfan yn ôl yn benisel i Stockholm. Roedd sefyll mewn hostel yn dipyn o newid byd wedi moethusrwydd cartrefi ein lletywyr! Tra'n Stockholm am ddau ddiwrnod ymwelom ag Amgueddfa Genedlaethol y wlad ac ag Amgueddfa Forwrol. Buom hefyd yn sglefrïo. Braidd yn ddiflas, fodd bynnag, oedd y brifddinas, i'm dant i, o'i chymharu â'n hanturiaethau yn Kalix.

Yna, ar fore Sadwrn, 28 Chwefror dechreuom ar ein taith tuag adref, wedi llwyr ymladd ond wedi mwynhau mas draw. Yr oeddem wedi cael profiadau bythgofiadwy a hoffwn ddiolch yn fawr i Dr Ceri Davies a Mr Tim Jenkins am gadw trefn arnom yn ystod y daith.

Aled Wyn Thomas Bl 12

Bu Meg Edwards, Nicola Williams, Emma Davies a Cari Lake o flwyddyn 9 a Carwen Richards a Lisa Thomas o flwyddyn 10 yn cymryd rhan mewn gweithdy ffônau symudol y BBC yn ddiweddar dan arweiniad Lisa Heledd. Cawsant gyfle i greu ffilm fer yn para tua chwe munud ar unrhyw destun o'u dewis. Buont yn defnyddio'r ffônau symudol yn ystod yr wythnos i saethu fideos, ac ar ôl cwblhau'r ffilmio bu'r merched yn eu golygu. Fe fydd y fideos yn cael eu darlledu ar wefan y BBC. Bu'n brofiad diddorol a chawsant lawer o hwyl.



Enillodd aelodau o'r grŵp busnes ddwy wobwr yn rownd derfynol Menter Ifanc Canolbarth Cymru yn Llanfair ym Muallt yn ddiweddar.

Sefydlodd y grŵp fusnes i werthu calendrau yn yr ysgol, ac er mwyn

cyrraedd y rownd derfynol, bu'n rhaid iddynt ysgrifennu adroddiad ar eu cwmni, gwneud cyflwyniad a pharatoi arddangosfa. Roedd 11 yn y grŵp ac enillwyd gwobr am y 'tîm gorau'.

Fe wnaeth pump ohonynt - Jamie Owen, Sarah Janes, Jonnie Davies, Jordan Walker a Liam Knowles - gyflwyniad ger bron cynulleidfâ o gant o bobl. Plesiwyd y beirniaid unwaith eto, ac fe enillon nhw'r wobwr am y 'cyflwyniad gorau' hefyd. Llongyfarchiadau mawr iddynt!

Mynychodd disgyblion Iechyd a Gofal ynghyd â disgyblion o flynyddoedd 9 a 10 gynhadledd gyrfau y GIG fel rhan o'u Wythnos Agored. Cawsant gyfle i holi arbenigwyr am eu gwaith, yn ogystal â gweld yr offer a'r dulliau maent yn defnyddio wrth drin cleifion. Cytunodd pawb ei fod wedi bod yn ddiwrnod buddiol dros ben.

Codwyd £500 at Gymorth Cancr Macmillan dros gyfnod y Pasg drwy werthu cywion Pasg wedi eu gwau gydag wyau siocled ynddynt. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Ar benwythnos yr 21ain a'r 22ain o Fawrth treuliodd nifer o'n disgyblion benwythnos blinedig yn neuadd ysgol Aberaeron yn cael eu hyfforddi fel aelodau o Gôr Canolradd Ceredigion. Pleser oedd bod yn bresennol yn y gyngerdd yn y Neuadd Fawr ar y 24ain i glywed y côr tri llais - soprano, alto a baritone. Perfformiwyd pedair cân ar y côf - yr hwiangerdd Gymreig 'Suo-gân', 'Pan ddaw yfory' gan Caryl Parry Jones, a 'Can you feel the love tonight' a 'Hakuna matata' gan Elton John. Llongyfarchiadau gwresog i'r canlynol am eu hymroddiad: Delyth Evans, Rhian Jones, Carys Jones, Yvonne Hughes, Melissa Davies, Sophie Jones, John Bear, Meleri Davies, Klean Dalton, Lauren Jones, Gwennan Holt, Lauren James, Nancy Lagdon, Gwawr Hatcher, Luke Bates, Kayleigh Moore, Wyn Davies, Ianto Jones, Lydia Thickett, Amanda Hunt, Rhiannedd Evans, Dewi Uridge, Llion Thomas, Sersia Benjamin, Amelia Davies, Terri Dahl, Polly Lagdon, Shane Bear, Nina Schooman, Gemma Williams a Siân Lloyd

Llongyfarchiadau i Libby Jones o flwyddyn 10 sydd wedi bod yn

cystadlu mewn nifer o gystadlaethau cleddyfaeth yn ddiweddar. Enillodd y wobwr Arian ym Mhencampwriaeth Ieuencid Prydain ac yna enillodd y wobwr gyntaf ym Mhencampwriaeth Cleddyfaeth Cymru. Mae Libby nawr wedi cael ei dewis yn aelod o dîm Prydain ac fe fydd hi'n cystadlu yn yr Almaen ac yn Hwngari. Mae hefyd wedi ennill lle yn nhîm hŷn Cymru. Dymunwn bob lwc iddi.

Bu'r bechgyn yn chwarae rygbi yn erbyn Tregaron yn ddiweddar. Dyma'r canlyniadau: Bl 8 ennill 55-5, Bl 10 ennill 46-7, Tim hŷn ennill 27-0. Llongyfarchiadau iddynt ar ennill bob gêm.

Da iawn hefyd i'r merched a fu'n chwarae gêmâu pêl-rwyd a hoci yn erbyn Aberteifi. Dyma'r canlyniadau:- Pêl-rwyd Bl 7 ennill 14-3, Bl 9 ennill 18-4, Tim hŷn colli 25-20, Hoci Bl 8 ennill 4-0.



Philip Chrich ac Aled Wyn Thomas - sydd newydd gael eu dewis i fod yn aelodau o Gôr Cymru. Llongyfarchiadau iddynt.

## YSGOL GYMUNEDOL PONTSIAN TYSTEB MRS DELYTH DAVIES

Ar ddiwedd tymor yr haf 2009 bydd Mrs Delyth Davies, prifathrawes Ysgol Pontsian, yn ymddeol o'i swydd ar ôl 39 mlynedd o wasanaeth.

Os ydych yn dymuno cyfrannu at ei thysteb a fydddech mor garedig a chysylltu a Miss Menna Jones, Ysgol Pontsian (01545 590658).

**CYFARFOD BLYNYDDOL**  
**Papur Bro CLONC**  
ar nos Fawrth, Mai 19fed  
am 7:00y.h.  
yn Nhafarn Cefnhafod,  
Gorsgoch.  
Bydd lluniaeth ysgafn  
yn dilyn.  
**CROESO CYNNES**  
**I BAWB.**

Llongyfarchiadau i M. Walker, 8 Heol y Gaer, Llanybydder ar ennill copi o'r gyfrol 'Hen Ffordd Gymreig o Fyw' yn y rhifyn diwethaf Clonc.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.



# O Siambr Sir Gâr

gan Pryfyn



Daeth dwy daflen dan ddrws Pryfyn y mis hwn. Yn y cyntaf roedd un o'r cwmnïau trydan yn honni bod cyfran reit sylweddol o'r trydan a ddosberthid i gwsmeriaid fel ni yn dod o ffynonellau adnewyddol - melinau gwynt.

Oni ddylai bod yn gwsmer iddyn nhw roi teimlad da i Pryfyn: y teimlad da a ddaw o wybod ein bod yn ceisio gwneud ein rhan i sicrhau dyfodol mwy gwyrdd i'r Pryfedyn bach?

Roedd yr ail daflen yn sôn yn benodol am ein hardal ni, gogledd Sir Gaerfyrddin, ac yn awyddus i'n darbwyllo mor ecogyfeillgar fydd y fferm wynt sylweddol y bwriedir ceisio caniatâd cynllunio amdani ar Fanc Llywelau, ger Rhydcymerau. Ac mae'r cwmni'n addo darparu'r newyddion diweddaraf ar ein cyfer yn y wasg, trwy gylchlythyr ac ar wefan. Ie, y cwmni a'r cwmni yn unig fydd yn rhoi'r wybodaeth inni ac yn penderfynu pa wybodaeth i'w roi inni. Ond pwy sy'n gymwys i allu pwyso a mesur yn annibynnol gwir werth y wybodaeth honno. I holi ond un cwestiwn diniwed: a yw arllwys miloedd o dunelli o goncrid i greu sylfeini i dwrbinau gwynt ar Fanc Llywelau yn weithred ecogyfeillgar? A pwy fydd yn gyfrifol am symud y concrid ar ddiwedd oes y twrbinau?

Mae cwmnïau ynni adnewyddol eisoes wedi codi 2,390 o dwrbinau gwynt ac mae 4,800 arall ohonyn nhw ar y gweill a chodi rhagor yn fwriad. Cost adeiladu twrbein 3MW 550 troedfedd o uwchder yw £2m-£3m a bydd pob un twrbein yn cynhyrchu elw o ryw £20m i'r perchen dros ei oes o 20-25 mlynedd. Mae Ofgem eisoes wedi rhybuddio'r llywodraeth yn Llundain fod telerau mor ddienaid o hael â hyn yn gwneud cam mawr â'r cwsmer cyffredin. Onid gwneud cam â'r etholwr cyffredin yw bod cyn lleied o rym gan lywodraeth Cymru mewn mater fel hyn.

Ac ar ben hyn, mae'r sybseidi i'r cwmni ynghyd â'r trwyddedi carbon priodol yn costio dros £80 yn flynyddol i bob defnyddiwr ynni; ac mae'n rhwym o gynyddu wrth i ragor o dwrbeini gael eu codi. Y nod yw sicrhau bod traean o'r trydan a gynhyrchir yn dod o ffynonellau gwyrdd erbyn 2020. Ond mae'r gostyngiad ym mhreis trydan, gwendid y bunt ac anhawster codi cyllid ar y marchnadoedd arian yn rhwystr pendant i'r diwydiant ynni gwynt. Felly mae'r cwmnïau ynni gwynt wedi holi am £2 biliwn arall gan y trethdalwyr yn y gyllideb eleni.

Ac er galw'r cynlluniau yn gynlluniau cymunedol, mae pob elw yn diflannu dros y ffin a dros y môr a'r holl gynnyrch yn cael ei allforio ar hyd y grid cenedlaethol. Sut mae cyfrif y lles cymunedol i drwch trigolion ardaloedd lleoli'r twrbinau? Ai trwy rifo'r peilonau a fydd yn cludo'r trydan i'r grid? A yw'r hyn a arfaethir mor ecoddeniadol â'r honiadau? Ac oni ddylid cadw golwg ar faint o ynni sydd ei angen arnom ni at ein defnydd ni ein hunain yma yng ngorllewin Cymru nawr a thua'r dyfodol. Dyna graidd unrhyw gynllun cymunedol go iawn.

Nodwedd ar y gwynt yw ei fod yn chwythu lle y myn sy'n golygu bod rhaid wrth bwerdai glo neu nwy neu niweliar wrth gefn er mwyn inni allu hwylio te deg ar ddiwrnod llonydd.

Nid yw'r naill daflen na'r llall a ddaeth dan y drws am drafod y pynciau mae Pryfyn am holi amdany'n nhw. Ond mae'n ddilema go iawn: rhaid ceisio pwyso a mesur a yw'r adnewyddol doed a ddelo, yn gynaliadwy o gwbl. Mae'n ddilema yn Sir Gaerfyrddin yr wythnos hon: ym Mhencader, yng Nghoedwig Brechfa, ym Mlaen Bowi (Castellnewydd Emlyn), Parc Cynog (Pentywyn), Dyffryn Brodyn (Llanboidy), Ffynnon-cyll (Hendy-gwyn).

Lleygwyr ydym ni oll a lleygwyr mewn maes anghyfarwydd. Ond dylid o leiaf ddisgwyl i Fwrdd Gweithredol gynnis arweiniad cyhoeddus. Gallai wneud hynny trwy ddechrau chwythu'r ffroth oddi ar ddatganiadau camarweiniol ac anghyflawn a wneir gan y cwmnïau ynni. Dyma'r unig ffordd i gynorthwyo ein cynghorwyr sir i wneud penderfyniadau aeddfed ar bwnc dyrps dros ben. Oni ellir gwneud hynny ar hyn o bryd, y cam call fyddai rhoi'r trethdalwr yn flaenaf ac argymhell gohirio'r penderfyniadau tan fod yr holl ffeithiau wedi'u gwyntyllu mewn dadl aeddfed. A yw rhoi'r trethdalwyr yn gyntaf yn gofyn gormod?

## O'r Cynulliad

gan Elin Jones AC



Dros yr wythnosau diwethaf, bu llawer o drafod yn lleol ynghylch y cynlluniau diwygiedig ar gyfer canolfan siopa mawr yng nghanol Aberystwyth. Bwriad y datblygwyr yw denu nifer o siopau cenedlaethol i'r dref. Fodd bynnag, byddai'n rhaid dymchwel nifer o siopau a thai ar un o brif strydoedd siopa'r dref er mwyn caniatáu i'r datblygiad yma ddigwydd. Mae trigolion a pherchnogion siopau lleol wrth reswm yn poeni'n fawr am y cynlluniau gan mai nifer o siopau bach y dref sydd o dan fygythiad. Mae maint y datblygiad arfaethedig hefyd yn dipyn fwy na'r cynlluniau a ddangoswyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod ymgynghoriad cyhoeddus arall yn cael ei gynnal ar y cynlluniau newydd yma er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fynegi barn ar y datblygiad hwn.

Cefais y fraint yn ddiweddar o fynychu lansiad cwrw 'Cardi Bay' ym mragdy Pen-lon ger Llanarth. Daw'r cwrw newydd yn sgil cydweithio rhwng y bragdy a Phrifysgol Aberystwyth gan ei fod yn defnyddio barlys sydd wedi ei dyfu ar un o ffermydd y Brifysgol. Mae'r Brifysgol eisoes yn defnyddio cynnyrch ei ffermydd ar gyfer tai bwyta a neuaddau preswyl y sefydliad, ac mae'n dda gweld eu bod yn edrych ar gyfleoedd newydd i sicrhau bod cynnyrch lleol yn cael ei ddefnyddio cymaint â phosib i greu bwydydd a diodydd yn lleol.

Fe fydd 2010 yn flwyddyn bwysig iawn i Geredigion – yn ogystal â chroesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Llanerchaeron, Ceredigion fydd sir nawdd Sioe Frenhinol Cymru'r flwyddyn nesaf. Roeddwn felly'n falch iawn i fod yn bresennol yn y swper a gynhaliwyd yn ddiweddar i lansio'r apêl ariannol yn ffurfiol. Er ei bod yn gyfnod economaidd anodd, mae'n dda gweld bod trigolion Ceredigion yn barod i estyn eu cefnogaeth i'r ddau ddigwyddiad pwysig yma yng nghalendr y sir y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau y

Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan gwmni yn CLONC, dywedwch wrthynt ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Rhifyn mis Mehefin  
Yn y Siopau  
**Mehefin 4ydd**  
Erthyglau i law erbyn  
**Mai 21ain**  
Newyddion i law erbyn  
**Mai 22ain**

## Clwb Clonc

**Mai 2009**  
£25 rhif 473:  
Mrs Tina Wilson,  
Llwynhelyg, Alltyblaca.  
£20 rhif 483 :  
Mrs Ruthie Williams,  
Rhiwlas, Cwmann.  
£15 rhif 358 :  
Betsy Morgan,  
Glanafon, Llanllwni.  
£10 rhif 206 :  
Dannie Harries,  
Gelli, Cwrtnewydd.  
£10 rhif 426 :  
Olwen Thomas,  
Riverside, Caerdydd.  
£10 rhif 119 :  
Mrs Mary Davies,  
The Coach House, Llanbedd.

**GLYN  
PHILLIPS**  
Saer Coed ac Asiedydd



Ffôn: 01570 470176  
Symudol: 07775 694243

**FISHERS**

**ARMS**



Bwyd cartref ardderchog nos lau, Gwener a Sadwrn.  
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig  
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merch.

**Cellan, Llanbedd**  
01570 422895

**T. Emyr Jones**  
**Adeiladwr**



**Araul, Cwmann**  
01570 423921  
07867 945174

**CANOLFAN ADDURNO**  
**AA**  
**A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerau, Polion a thraciaau llenni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.  
3 Stryd y Bont  
Llanbedd Pont Steffan  
01570 423156

**Cludfwyd Indiaidd**  
**NEHAR**

newydd agor yn Llanbedd



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.  
15% o ostyngiad  
ar archebion dros £10.00.  
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

**10 Stryd y Bont, Llanbedd**  
01570 422893 / 422175



# Llanybydder

18 oed

Llongyfarchiadau i Rhydian Davies, Maesybarcud, Llanybydder ar ei benblwydd yn 18 ar Fai 21ain

## Taith Gerdded Noddedig – Sefydliad Aren Cymru

Cynhaliwyd taith gerdded yn Llanybydder ar y 29ain o Fawrth wedi drefnu gan Granville Thomas Wenallt i godi arian tuag at Sefydliad Aren Cymru. Daeth nifer o gymdogion Granville yn Heol Llansawel a rhai ffrindiau o Llambed ynghyd i gerdded o Wenallt i fynnu i'r tri mast ar y mynydd. Yna i lawr ar lwybr dros y mynydd heibio Llainlas, Waungron a Glantren i'r pentre, wyth milltir i gyd. Yr oedd yn fore braf a cafwyd llawer o fwynhad yng nghwmni'n gilydd ar y daith a braf oedd gweld Sheila gwraig Granville yn ein croesawi yn ol gyda thystysgrif i bawb a gymrodd rhan. Da yw dweud bod y swm o £338 wedi ei godi at yr achos teilwng hwn. Carau Granville a Sheila ddiolch i'r cerddwyr ac i bawb a wnaeth ei noddi.

## Gyrfa Chwist

Cynhaliwyd Gyrfa Chwist lwyddiannus yn Neuadd yr Eglwys Llanybydder ar nos Fercher yr 8fed o Ebrill. Dyma y drydydd o dair sydd yn cael ei trefnu gan Jack Jenkins Gelli House yn ystod y gaeaf.

Enillwyd y sgôr uchaf gan Ivy Jones Blaenplwyf. Dynion -Cyntaf – Peter Williams, Rhydargaeau, Ail - Eileen Colbourne, Ffostrasol Merched – Catrina Davies, Aberaeron. Ail – Gwenda Davies, Felinfach. Rhoddwyd y gwobrau'r chwist gan Mr a Mrs Mansel Griffiths Llanfihangel ar Arth a'r curo allan gan George Thomas Tymawr. Bwbi – Dynion Rhwng Tommy Jones a Harry Williams Merched – Morfydd Slaymaker. Rhif ar y garden – Mary Davies Rhydowen

Enillwyr y Raffl : Mygiau – Marian Evans Cwmann, £5 – Mari Lloyd(rhoi'r wobwr yn ol) £5 – Mavis Beynon Llambed, £5 – Owen Davies Llanybydder, £5 – Janet Short Tymawr, Gwobr gudd – Dewi Davies Llanybydder, Sebon – Velvor Jones Talgarreg, £5 – Lisa Jones Bwlchfyadfa, £5 – Jean Richards Cwrtnewydd, £5 – Gareth Jones Llanybydder, Stemar Meicro – Ray Jenkins Llanybydder, Wy Pasg – Delyth Evans Llanybydder, Nôd lyfr – Emrys Evans Maesyrcugiau, Tommy Jones Croeslan.

Talwyd y diolchiadau gan Aneurin Davies o gangen Llanybydder a Llambed o Ymchwil y Cancr, i bawb am ei rhoddion at y chwist ar raffl, am gefnogu y chwist ac i Jack Jenkins am wneud



Taith Gerdded Sefydliad Aren Cymru

yr holl drefniadau. Diolchodd hefyd i aelodau y gangen leol o Ymchwil y Cancr am baratoi'r bwyd.

## Arholiad Cerdd

O dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol llwyddodd Daniella Beaumont, Nant Helyg, Heol Glantren basio arholiad Gradd 6 piano gyda marciau uchel. Llongyfrachiadau Daniella a dalier ati.

## Ysgol Llanybydder

Bu nifer o'r disgyblion yn cystadlu yn eisteddfod gylch yr Urdd yn Llambed. Da iawn bawb a gymerodd ran – gwnaethoch eich gwaith yn dda iawn. Daeth Elin Hughes yn fuddugol yn y gystadleuaeth dawnsio disgo ac aeth ymlaen i gystadlu yn yr eisteddfod Sir lle gafodd y 3ydd wobwr. Da iawn ti.

Fel rhan o'u gwaith technoleg, bu'r adran Iau yng ngholeg Rhydaman am y bore yn gwneud blychau bwydo adar. Roedd yn brofiad addysgiadol i'r plant a rydym yn ddiolchgar i'r coleg am y gwahoddiad. Diolch arbennig i Mr Daryl Thomas am drefnu'r cyfan.

Bu nifer o blant yn cystadlu yn nhwrnament traws gwlad yn ddiweddar. Gwnaeth pawb yn dda iawn – chwarae teg. Llongyfarchiadau a phob lwc i Llyr Roach, Daniel Lewis a Steffan Davies sy'n mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd nesaf yn Llangrannog.

Ymunodd tri disgybl newydd â ni ar ôl gwyliau'r Pasg. Mae Mili, Iestyn a Thomas eisoes yn hollol gartrefol ac yn mwynhau yn y dosbarth babanod.

Cynhaliwyd disgo i'r plant yn neuadd yr ysgol ddydd Gwener ola'r tymor. Cafodd pawb amser hwylus dros ben, a rydym yn ddiolchgar i'r gymdeithas rieni ac athrawon am wneud y trefniadau.

Aeth llawer o aelodau'r Urdd i'r Jambori a gynhaliwyd ym Mhontridfendigaid yn ddiweddar.

Gwnaeth pawb fwynhau yn fawr iawn – cafwyd llawer o hwyl a sbri.

Mae disgyblion blwyddyn 4,5, a 6 yn edrych ymlaen at y trip i Lundain ym mis Mai. Yn ystod y dydd byddwn yn cael siawns i ymweld, a mynd o amgylch y Senedd yn San Steffan. Yn wir, bydd hwn yn brofiad bythgofiadwy i'r plant a'r athrawon.

Clwb Cefnogwyr Mis Mawrth: £10.00 Bleddyn Jones, £5.00 Michelle Evans. Mis Ebrill: £10.00 Carys Howells, £5.00 Kay Lewis.

## Llanfair

### Gwellhad

Dymunwn wellhad buan iawn i Ian Evans, Esgairman ar ol y driniaeth ar ei glun yn ysbyty Bronglais. Erbyn hyn mae wedi dod adref a rydym yn gobeithio ei weld yn cerdded yn ddiboen yn fuan a nôl yn y capel a'r gymuned.

Dymunwn wellhad buan i John Green, Nant Gwyn sydd hefyd wedi cael triniaeth ar ei glun uchaf. Gobeithio y bydd yntau adref ac yn ddiboen yn fuan.

### Sefydliad y Merched

Cafwyd noswaith o gelf diddorol ar Ebrill 23ain pan ddaeth Delma Belsham I esbonio i ni sut oedd paentio ar wydr. Dangosodd i ni sut oedd creu gwahanol liwiau a gweadau a cafodd pawb y cyfle i arlunio gwydr eu hun. Cafwyd lluniaeth flasu iawn gan Elaine, Julia ac Aerwen.

### Cymorth Crisnogol

Edrychwn ymlaen at gynnal noswaith i godi arian ar Mai 14 eg yn Neuadd y Pentref, i ddechrau am 7.30 y.h ,gyda Nicola Harries yn trefnu blodau a'r Parch.Susie Bale yn chwarae'r delyn.Bydd yno luniaeth ysgafn a gwobrau raffl. Gobeithio y gwelwn lawer ohonoch yno i fwynhau noswaith ddiddorol ac i godi arian at achos da. Bydd y mynediad yn £5.

## Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,  
Llambed, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

## Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambed  
Ffon: 423300 Ffacs: 423223  
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob  
gwasanaeth cyfreithiol  
*Apwyntiadau hwyr neu  
yn eich cartref*

# W.D. Lewis a'i Fab

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,  
Llanbedr Pont Steffan

*Am holl fwydydd a nwyddau  
amaethyddol, cysylltwch â ni.*

# WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHIWR.  
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob  
gwasanaeth cyfreithiol.  
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

## 1 Sgwâr Harford, Llambed

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,  
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

## CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar  
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion  
chi - boed yn fawr neu'n fach*

Mair Hatcher  
01570 481230 / 07967 559683





## Gwerthfawrogi Goreuon y Gwanwyn.

Yn cadw cwmni i mi yn y gegin y mis yma, mae pedwar o lysiau sydd ar eu gorau ym mis Mai.

Tato newydd, Pŷs, Asparagus a Shibwns. Maent yn ein hatgoffa fod y Gwanwyn wedi cyraedd a bod yr Haf rownd y gornel. Mae'n adeg gyffrous i arbrofi ac wrth gwrs mwynhau'r bwyta wedyn.

Cadw'r rysetiau'n syml, er mwyn gwerthfawrogu'r gorau o flas y Gwanwyn yn y gegin – rysetiau perffaith ar gyfer Gwyl y Banc.

M, m, m – mwynhewch mis Mai.

*Gareth.*

## Ffa, Pŷs ac Anchovies.

Perffaith gyda Chig Oen – digon o liw, a blas hyfryd.

### Cynhwysion

- 1 pwys o ffa.
- 1 pwys o bŷs
- 2 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd
- 8 owns o domatoes bach (Cherry) wedi'u haneri.
- 4 sibwns wedi'u darnio'n fân
- 2 ewin o garlleg
- Tua 6 ffild o anchovy
- 1 llond llwy fwrdd o bersli wedi'i dorri'n fân.

### Dull

1. Trochwch y ffa a'r pys mewn dŵr berwedig am funud, tynnwch nhw allan a'u trochi mewn dŵr oer.
2. Cynheswch yr olew ac ychwanegwch y tomatos i'w meddalu dros wres uchel. Ychwanegwch y shibwns a'r garlleg, ffriwch am tua dwy funud. Ychwanegwch y ffa a'r pŷs a'u ffrio'n ysgafn am 1-2 funud nes fod y cyfan wedi cynhesu drwyddo.
3. Ychwanegwch, yr anchovy, pupur ac halen ac yn olaf y persli. – Gweinwch.

## Salad y Gwanwyn.

### Cynhwysion

- 8 owns o datws newydd wedi'u scrwbio a'u hanneri
- 8 owns o ffa
- 8 owns o asparagus ifanc
- 6 owns o bys
- Tua 5 sleisen o ham 'parma' neu ham Caerfyrddin wedi'i dorri'n fân.
- 125 gm 5 oz o ddail salad
- 100 gm 4 oz o gaws Caerffili wedi'i falu
- Dresin
- 4 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd
- 1 llond llwy fwrdd o finegar
- Ychydig o siwgr

### Dull

1. Berwch y tato mewn dŵr hallt am 10 – 15 munud nes yn feddal. Tynnwch o'r dŵr.
2. Trochwch y pŷs, ffa a'r asparagus mewn dŵr berwedig, sychwch nhw a'u cymysgu â'r tatws a'r ham.
3. I wneud y dresin cymysgwch y cynhwysion yn y prosesydd bwyd.
4. I weini – cymysgwch y salad gydag ychydig o'r dresin, rhowch ar blat a threfnwch y lysiau drostynt. Rhowch weddill y dresin dros y cyfan a thaenwch y caws dros y cyfan. Ychwanegwch bupur ac halen.

### Hyfrydwch a harddwch yr Haf

Dyddiad: MEHEFIN y 10fed

Lleoliad – Cegin Gareth – Goedwig

10.30 – Cyrraedd am de neu goffi

11.00 – 1.00 Arddangosfa goginio, defnyddio cynnyrch yr Haf.

1.00 – 2.00 Cinio

2.00 – 3.00 Arddangosfa trefnu blodau i'r cartref ym misoedd yr haf.

3.30 – ymlaen – Te prynhawn

Pris £22

I archebu – ffoniwch Gareth 01570 422313

## Dathliadau, a'r diwrnod mawr

### Diwrnod hanesyddol.

Na, dydw i ddim yn sôn am Fai 15 pan fydd gwasanaeth newydd Golwg360 yn cael ei lansio ar y We.

Mae'n wir y bydd hwnnw'n ddiwrnod mawr – ar hyn o bryd, mae yna gymysgedd o edrych ymlaen a nerfusrwydd.

Mae llawer iawn yn dibynnu ar yr ochr dechnegol – y gorchmynion a'r disgrifiadau sy'n dweud wrth y cyfrifiadur beth i'w wneud er mwyn cyflwyno'r straeon a'r lluniau a'r gweddill.

Does gen i ddim cliw sut y mae hwnnw'n gweithio ...mae fel mynd â char modern i'r garej – rydech chi'n dibynnu'n llwyr ar rywun sy'n gwybod mwy na chi. Ond, dyna fo, alla' i ddim trwsio peiriant argraffu chwaith.

Y peth mawr ydi fod pawb sydd â chyfrifiadur yn rhoi cynnig arni ... ewch i mewn i'r safle o Fai 15 ymlaen ... teipio [www.golwg360.com](http://www.golwg360.com) ac i ffwrdd â chi.

A rhowch wybod i ni am eich barn.

Fel y dywedais i, nid dyna'r diwrnod hanesyddol ac nid Mai 12 chwaith, sef diwrnod dathlu deng mlwyddiant y Cynulliad Cenedlaethol. Ac, erbyn hyn, mae'n deg defnyddio'r gair "dathlu".

Erbyn hyn, er ein bod ni i gyd yn cwyno o dro i dro, mae'n anodd dychmygu Cymru heb y Cynulliad ... a dyna, yn y diwedd, ydi'r mesur go iawn o lwyddiant rhywbeth. Erbyn hyn, siawns nad ydi Aelod Cynulliad Ceredigion yn fwy adnabyddus nag Aelod Seneddol Ceredigion, hyd yn oed y tu allan i ardal Clonc.

Roedd y darlithydd gwleidyddiaeth, Richard Wyn Jones, wedi crynhoi ffigurau y diwrnod o'r blaen yn dangos sut yr oedd barn pobol am ddatganoli wedi newid tros y blynyddoedd.

Erbyn hyn, mae yna ychydig yn llai eisiau annibyniaeth lwyr, lot llai eisiau cael gwared ar y Cynulliad a llawer mwy wedi crynhoi yn y canol, o blaid y drefn fel y mae neu fersiwn rhywfaint cryfach.

Diwrnodau hanesyddol trist sy'n wynebu rhai o ysgolion bach Ceredigion, gan gynnwys ysgol Cribyn.

Yn y diwedd, mae'r fwyell yn disgyn a nifer y plant wedi mynd yn rhy fach hyd yn oed i ystyried partneriaeth gydag ysgol arall. Clywed fod y siop wedi cau hefyd a'r ddwy dafarn ola' yn angof ers tro byd.

Weithiau, does dim osgoi newid o'r fath ond mae yna newidiadau llawer mwy ar droed hefyd a'r syniad yn y sir o gael ysgolion i blant rhwng 3 ac 19 oed, neu o leia' hyd at TGAU.

Mae eisio gofal mawr. Os ydi rhai ysgolion yn y diwedd yn mynd yn rhy fach i wneud sens addysgol, mae'n bosib mynd yn rhy fawr hefyd ... yn hawdd iawn. Allwch chi ddim cadw ysgol ar agor am ddim ond rhesymau cymdeithasol, ond mae'r rheiny'n bwysig hefyd.

Mae eisio addysgu plant mewn ffordd sy'n gweddu i'w cymunedau, er mwyn dyfodol y naill a'r llall.

Ond, na, rhyw bythefnos yn ôl y daeth y diwrnod mawr a finnau a'r wraig a'r ci yn cerdded ar dir agored rhyfeddol y brynau sy'n creu balconi o Lanbed i gyrion Brechfa uwchben Dyffryn Teifi.

Aderyn oedd achos y cyfan. Nid y ddwy gwcw gerllaw Gallt y Mynydd – ar ddiwrnod arall y gwelso'n ni'r rheiny ac maen nhw'n olygfa flynyddol bellach – ond aderyn a oedd, i fi, yn dod â ddoe yn ôl.

Clywed ei sŵn hi wnaethon ni i ddechrau, rhyw hanner-crio digon doleus, ac wedyn ei gweld yn silwét yn erbyn yr haul isel. Nid wrth ei big y mae nabod cyfflog ond, yn sicr, wrth ei phig y mae nabod y gylfinir.

Doeddwn i ddim wedi ei gweld hi ers degawdau, cyn iddyn nhw blannu coed ar y llethrau uwchben fy hen bentre' yn Waunfawr. Ond roedd hi yno y diwrnod o'r blaen, er gwaetha'r holl sôn am golli cynefin a thir.

Alla' i ddim esbonio pam fy mod i wedi gwirioni cymaint o'i gweld. Diwrnod hanesyddol.



## Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Dymuniadau gorau i bawb sydd yn cystadlu yng Nghaerdydd ar ddiwedd mis Mai. Gobeithio y cawn weld eich lluniau yn rhifyn mis Mehefin.

Os oes rhywun a fyddai'n medru stiwardio ar stondin 2010 yng Nghaerdydd neu yn Bala i gysylltu â Nia ar 01570 480015.

## Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2010

Cynhaliwyd y Gŵyl Cyhoeddi ar draws Ceredigion ar yr wythnos 21ain – 24ain o Ebrill. Trefnwyd teithiau cerdded ar hyd llwybrau'r sir, gan fwynhau y golygfeydd godidog. Bu nifer o bobl yn cerdded ar wahanol ddiwrnodau. Cydlynwyd y daith oedd Dewi Hughes, Aberystwyth. Fe welwyd Pafiliwn Pontrhydfendigaid a Chanolfan Hamdden Llangrannog o dan ei sang pan fu tua 2500 o blant cynradd yn llenwi'r lle yn

ei jamboris o dan ofal Gwenda Owen a'r band. Ar y prynhawn dydd Gwener, gwelwyd rai o gymeriadau Pentrebach yn ymddangos hefyd sef Bili Bom Bom a Coblyn. Lawnsiwyd y Rhestr Testunau hefyd ar y prynhawn dydd Gwener. Tynnwyd y raffl hefyd a dyma'r enillwyr: 1. Amanda Jones 14 Talar Deg, Llanilar, Aberystwyth, 2 Ray Darby, Borth, 3. Geraint Morgan, Hen Ysgol Bwlchllan. I gloi'r wythnos cynhaliwyd gig gyda Gwibdaith Hen Frân a bandiau eraill ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Trefnwyd y gig ar y cyd rhwng Pwyllgor Ieuencid yr Eisteddfod a Chlybiau Ffermwyr Ifanc y Sir gyda chefnogaeth gan Bafiliwn Bont, Cyngor Sir a Chymunedau yn Gyntaf, gyda'r elw yn cael ei rannu rhwng yr Eisteddfod ac apêl y Sioe Frenhinol.

## Stiwardio

Bydd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ymweld â Bae Caerdydd rhwng 25 a 30 mis Mai eleni. Mae'r paratodau eisoes yn cyrraedd eu hanterth â'r Brifddinas yn edrych ymlaen at groesawu hyd at 100,000 o ymwelwyr i'r ŵyl.

Canolfan Mileniwm Cymru fydd canolbwynt yr Eisteddfod gyda'r stondinau a'r arddangosfeydd yn llenwi'r strydoedd gerllaw yn ogystal â'r Roald Dahl Plass, neu'r basin. Yn ogystal â bwlrlwm y cystadlu yn Theatr Donald Gordon bydd llwyfannau perfformio o amgylch y maes, theatr stryd a gweithgareddau o bob math. Adeilad hardd y Senedd fydd yn gartref i'r arddangos Celf a Chrefft am yr wythnos - arddangosfa sydd bob blwyddyn yn wledd i'r llygaid ac yn ddatliad arbennig o dalent a chrefft ieuencid Cymru.

Mae disgwyl oddeutu 15,000 o gystadleuwyr i'r Eisteddfod gyda'r goreuon yn mynd ymlaen i berfformio ar lwyfan enwog Theatr Donald Gordon, Canolfan y Mileniwm. Yn ôl yr arfer eleni mae'r Eisteddfod yn edrych am wirfoddolwyr i glacio a stiwardio yn y rhagbrofion, yn y Theatr ac ar hyd a lled y maes. Caiff pob gwirfoddolwr docyn am ddim i'r maes ac mae'r rheiny sy'n fodlon gweithio am ddau gyfnod yn cael tocyn bwyd yn rhad ac am ddim hefyd.

Dywed Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, "Mae lleoliad yr Eisteddfod eleni yn gyffrous ynddo'i hun ac rydym fel Mudiad yn edrych ymlaen at gael dychwelyd i'r safle lle cynhaliwyd Eisteddfod mor llwyddiannus bedair blynedd yn ôl.

"Unwaith eto, rydym yn gofyn yn garedig iawn am bob cymorth gan drigolion Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos i sicrhau fod hon yn Eisteddfod yr un mor llwyddiannus. Mae ymdeimlad o gyffro a gwefr eisoes ar droed yn y Bae wrth i'r Eisteddfod agosáu ac edrychwn ymlaen at ŵyl i'w chofio yma ym mis Mai."

Am fwy o wybodaeth am yr Eisteddfod ewch i [www.urdd.org](http://www.urdd.org). I gysylltu ynglyn â gwirfoddoli cysylltwch â [stiwardio@urdd.org](mailto:stiwardio@urdd.org), [clercio@urdd.org](mailto:clercio@urdd.org) neu ffonio 029 2063 5690.



Jambori'r Cyhoeddi

## NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2009

### Hanes y Neges

Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru yn 87 mlwydd oed, ac ers 1922 mae'r neges wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol yr Urdd. Anfonwyd y neges gyntaf gan Y Parch Gwilym Davies o Gwm Rhymni. Roedd yn heddychwyr mawr ac yn flaenllaw wrth sefydlu Undeb Cymreig y Cenhedloedd Unedig ac yn ddiweddarach UNESCO. Credai mewn dod â phlant y cenhedloedd ynghyd, ac fe benderfynodd Syr Ifan y dylai'r Urdd ymuno gyda'r fenter o gyhoeddi'r neges er mwyn dileu'r anwybodaeth a'r rhagfarnau a oedd yn bodoli rhwng cenhedloedd y byd. Darlledwyd y neges am y tro cyntaf ar y BBC World Service ym 1924 ac erbyn heddiw mae'r neges yn ymddangos mewn trideg pedair iaith ar y we, ac yn cyrraedd pedwar ban byd. Yn y 50au rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Urdd i gyhoeddi Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn flynyddol ar ddydd Ewyllys Da, 18 Mai, sef dyddiad y gynhadledd heddwch gyntaf yn yr Hâg ym 1899.

Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd ar y thema Newid Hinsawdd. Mae'r holl gyfieithiadau, yn ogystal â'r gân 'Twymo Byd Eang', wedi cael eu gosod ar gryno ddisg. Rydym wedi llwyddo i gyfieithu'r Neges i 34 o wahanol ieithoedd – sef y nifer mwyaf erioed yn hanes y neges. Gofynnwn yn garedig i chi ein cynorthwyo i ledaenu'r neges drwy eich cysylltiadau ag ysgolion ar draws y byd.

Lluniwyd y Neges, yn ogystal â'r gân gan, ddisgyblion ysgolion Fitzalan a Plasmawr, Caerdydd a dyma'r tro cyntaf i ddwy ysgol weithio ar y cyd i lunio'r Neges. Gwahoddwn holl blant a ieuencid Cymru i ymuno â ni ar fore Llun, 18 Mai – bydd Radio Cymru yn darlledu'r Neges o Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru. Gwnewch yn siwr eich bod yn rhan ohono.

### Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan Ieuencid Cymru i Ieuencid y Byd Newid Hinsawdd: Bai pwy? Ein bai ni...

Pwy sy'n achosi'r problemau? Ni! Ni yw'r bobl sy'n llygru'r byd.

Ydych chi'n casáu gweld y newyddion? Ydych chi wedi cael llond bol ar weld delweddau o lifogydd, corwyntoedd, a phob math o broblemau byd eang?

Eich dewis chi yw e, dewis byw neu farw. Helpwch ni i greu dyfodol gwell

Mae popeth bach yn helpu. Gallwn ddefnyddio llai o drydan, arbed dŵr, ail-gylchu, aildddefnyddio a chefnogi elusennau.

Rhaid i ni wneud ein rhan. Rhaid i ni wynebu'r broblem.

Gwahoddwn ieuencid y byd i ymuno gyda ni bobl ifanc Cymru i greu dyfodol gwell. Dyfodol gwyrdd. Dyfodol diogel. Gyda'n gilydd gallwn atal cynhesu byd eang. Rhaid i ni weithredu nawr.

Newid Hinsawdd: Bai pwy? Ein bai ni...



# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed



Dol-Mebyd  
Pencarreg

Annwyl Blant,


Sut ydych chi gyd? Wel byddwch chi'n synnu clywed fy mod i Lincyn Loncyn bach yn sal. Sal ofnadwy ar ol bwyta gormod o wyau Pasg dros yr wythnosau diwethaf. Mae Joni' Jacos yn dweud bod angen i fi ddechrau rhedeg, er mwyn colli'r bola 'ma, ond y gwir amdani yw does gen i 'mor coesau i wneud hynny.

Braf gweld bod llawer un wedi rhoi cynnig arni y mis hwn eto. Mae clod mawr yn mynd i Sara Elan o Gwmann, Ellie Mai o Abergwili, Rhodri Jac o Lanybydder, Miriam Butcher o Gaerdydd, Daniel Arwyn o Lanfair Clydogau a phlant Ti a Fi Cwrtnewydd.

Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Cerys Davies, Henbant, Llangeitho, Tregaron.


Da iawn a llongyfarchiadau mawr ichi gyd. Cofiwch fynd ati i liwio llun y mis nesaf a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, Mai 25ain.

Lincyn Loncyn



Enillydd  
y mis!

Cerys  
Davies



Enw:

Cyfeiriad:

## 'STORI I'N SWYNO'

I blant dan 12 oed



### Chysgais i ddim winc!!

Fe gyrhaeddodd pawb wersyll Bannau Brycheiniog ar ddiwrnod braf iawn. Roedd Paul yn ei siorts pinc a phawb yn chwysu bwcedi o chwys. Roedd y coed yn sefyll yn stond a syth fel sowldiwr a'r llyn mor dawel â'r nos. Daeth Ron i'r bws i helpu efo'r bagiau ac roedd pawb yn llon. Roedd y gweryll yn edrych yn ddiflas ac roedd yna we pry cop ar y ffenestri i gyd. Pan gyrhaeddodd Mr Evans aeth ati i wneud paned o de a bwyta bisged. Fe aeth pawb lawr i'r cae i chware pêl-droed. Sgoriodd Morgan un gôl a wedyn fe weiddodd Mr Evans yn ei lais cras ac fe droiodd yn goch! Rhedodd pawb fel y gwynt draw at Mr Evans. Dechreuodd siarad yn ei lais dwfn "PWY SYDD WEDI CUDDIO FY NGHAS DILLAD?". Crynodd pawb mewn ofn.

Roedd pawb yn chwilio ymhob twll a chornel am ei ddillad ond doedd dim sôn amdanynt. Am tua naw o'r gloch fe benderfynodd Paul ddod mewn i ddweud stori arswyd am Cyril y gorilla wrth y merched. Wrth i Paul ddweud yr hanes fe grynodd Hanna ac roedd Sian yn cnoi ei hewinedd mewn ofn.

Ar ôl i Paul ddweud y stori roedd pawb heb ddweud dim. Neidiodd Paul lan ar ei draed fel cangarŵ, dweud nos da a gadael. Aeth Lowri i gau'r llenni ac wrth eu cau fe sgrechiodd "mae Gorila mas fanna".

"Nag os" meddai Sian. Fe aeth Sian i weld beth oedd yna AAAHHH, fe ruthrodd pawb dan y gwely. Fe ddaeth Paul i mewn "Beth sydd yn bod". "Ma Gorila fanna" meddai Hanna. "Dewch mas tu fas i weld beth sydd 'na".

Dewch ferched i weld beth sydd 'na, mae'r bechgyn yn pallu dod. Ma nhw yn dweud bod nhw yn fisi, ond ma nhw yn ofnus. "Oce, ferched dewch i ni gael cynllun i drial dala Cyril y Gorila, unrhyw syniadau, neb?" "Oce beth am wneud trap lan yn y goedwig, un bach caredig. Bydd e ddim yn gwneud dolur. Nawr ewch chi i chwilio am fanas ffres tra wna i adeiladu trap".

[25 munud wedyn]

"Fi wedi gorffen ferched" meddai Paul, "dewch yma". "Paul ni wedi ffindio bananas". Na i lan i osod y tap yn y goedwig. Y noson honno welodd neb Mr Evans. Dywedodd Paul ei fod o wedi mynd i Brecon i brynu pyjamas newydd. "Chysgodd neb ddim winc drwy'r nos".

Trannoeth aeth Paul a'r marchod lan i weld y trap. Cerddom lan yn dawel fel llygod bach at y trap a pipo a pigo rownd y gornel.

"Ni wedi dala fe" gwaeddodd Paul mewn cyffro. Pan welodd Paul y Gorila fe sylwodd taw dim Gorila go iawn oedd e ond rhywun wedi gwisgo fel un! Tynnodd Paul y mwgwd bant ac edrych yn syn efo'i lygaid bron popo allan o'i ben. Mr Evans!!

"Ond pam bydde chi eisiau rhoi ofn arnom ni?" "Wel rhon i eisiau achos 'odd rhywun wedi dwyn fy nghas dillad a ma fy nhedi ynddo fe, a dwy methu cysgu hebddo! Dwi eisiau talu nôl i bwy bynnag oedd wedi ei ddwyn. A byddwn i wedi llwyddo os bydde fe dim amdanoch chi a'ch trwynau hir, busneslyd."

"Felly ble mae'r cas dillad?" holodd Hanna.

"O ie," meddai Chloe, "fe anghofiais ddweud wrtho chi, roedd Mrs Vaughan wedi ffonio neithiwr gan ddweud bod cas dillad Mr Evans ar ôl yn y swyddfa!!

"Mr Evans!!!! Gweddodd y plant i gyd yn grac!

Gan Alis Butten, Ysgol Carreg Hirfaen, Cwmann

Roedd y testun yn amlwg wedi apelio y mis hwn. Roedd nifer wedi bwrw ati i ysgrifennu a diddorol oedd darllen am bob math o bethau a oedd yn atal y cystadleuwyr rhag cysgu!

Y stori wnaeth fy swyno fwyaf y tro hwn oedd stori **Alis Butten, Ysgol Carreg Hirfaen.**

Cofiwch nawr blant fwrw ati y mis hwn eto i ysgrifennu stori.

Y teitl yw:

**AR GOLL YN Y NIWL**

Cofiwch anfon eich stori at: 'Y Dewin Doeth', Glasfan, Drefach, Llanybydder, SA40 9SY neu [cystadleuaeth@clonc.co.uk](mailto:cystadleuaeth@clonc.co.uk)

erbyn:

**Dydd Gwener, Mai 22ain.**

Cyfle i ennill  
Tocyn Llyfr gwerth  
**£10**



# Eisteddfod Capel y Groes



Enillwyd y Gadair am gerdd ar y testun 'Gobaith' gan Elin Jones, Maesycrugiau.



Disgyblion Ysgol Llanwnnen oedd yn fuddugol ar y Parti Cydadrodd a'r Parti Unsain i Ysgolion Cynradd.



Lowri Elen Jones, Llambled - Cyntaf Llefaru 10-12oed, Cyntaf Canu Emyrn dan15oed.



Megan Mai Jones, 5 oed gyda'i chwaer Nia Beca Jones, 4 oed - enillwyr yn y canu a'r llefaru o dan 6 oed yn Eisteddfod Capel-y-Groes.



Canu Penillion dan15oed - Gwawr Hatcher, Gorsgoch oedd yn fuddugol.



Yn gyntaf ar yr unawd ar unrhyw offeryn cerdd dan 12 oed oedd Meleri Davies, Cwrtnewydd.

## Clybiau Ffermwyr Ieuainc



Enillwyd y marciau uchaf yn Niwrnod Maes Ceredigion gan Glwb Llanwenog



Louise Jones Clwb Cwmann yn un o Ddirprwyon Llysgenhades Sir Gâr.



Clwb Llanllwni yn cyflwyno elw'r Sioe, Cwrdd diolchgarwch a'r Canu Carolau.



## D & C Rallying



Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664  
**CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4**

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math  
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

**\* Teiars o bob math \* Olew \* Filteri \* Batris \* Brêcs \***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni  
**Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN**



## O gwmpas yr ardal...



Tîm pêl droed merched dan 14 oed De-Ceredigion yn ennill twrnament "Central Wales inter-league" o dan hyfforddwyr Mr Colin Thomas a Mr Kelvin James.



Tîm Rygbi Ysgol Ffynnonbedr a fydd yn cynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth cenedlaethol yr Urdd ym Marc y Scarlets ar Fai 16.



Bu disgyblion, athrawon a rhieni yn creu strwythur helygen byw yng nghae chwarae Ysgol Llanwennog.



Disgyblion Ysgol Llanwnnen ar daith gerdded cyhoeddi Eisteddfod Yr Urdd 2010.



Bu plant Ysgol Ffynnonbedr ynghlwm â dau weithgaredd i hybu'u hymwybyddiaeth o'r Urdd ac o'r Eisteddfod. Aeth tua cant o blant i'r Jambori a gynhaliwyd ym Mhontrhydfendigaid a chafwyd llawer o hwyl yn canu caneuon cyfarwydd ac hefyd dechrau dysgu cân 2010. Yn ychwanegol at hyn roedd Ieuan Roberts wedi trefnu taith gerdded o Lanbedr Pont Steffan i Landysul eto i ddod â sylw'r cylch at waith yr Urdd a dyfodiad yr Eisteddfod. Croesawyd y cerddwyr gan holl blant yr ysgol ac fe ymunodd plant blwyddyn chwech â hwy ar ran o'r daith.



Gornest aredig Cymdeithas Aredig Sir Gaerfyrddin gynhaliwyd ar dir Llanfechan, Alltbylaca ar ddydd Llun Gwyl y Banc, trwy ganiatad Mrs Sally James a'r teulu, Cornel Llanllwni. Roedd yn ddiwrnod arbennig o lwyddiannus gyda dros 40 yn cystadlu a thorf dda wedi dod i farnu ac i ddwyn atgofion wrth wyllo'r ceffylau a'r hen dractorau yn aredig.